PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 367 | MAWRTH 2014



Pum cenhedlaeth t5




Profiadau yn Tonga t6



Gair o Baris - Harri t11

# Gŵyl Ddewi ac Eisteddfodau



Llongyfarchiadau i Heddwyn a Dyfri Cunningham, Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, sydd wedi cael cyntaf am waith ffotograffiaeth yn Eisteddfod yr Urdd. Enillodd Heddwyn gyda print du a gwyn a Dyfri am brint lliw i flynyddoedd 3 a 4. Roedd y ddau wedi cymryd eu lluniau o'r goedwig ddaeth i'r golwg ar draeth y Borth. Cafodd Dyfri hefyd y drydedd wobr am brint du a gwyn (llun agos o gragen ar y traeth). Yma gwelir Heddwyn ar y chwith a Dyfri ar y dde ym Mhared Gŵyl Ddewi Aberystwyth.



Laura Jones Williams, enillydd y gadair 2014 yn Ysgol Pen-llwyn.



Enillydd Cadair Eisteddfod Ysgol Rhydypennau - Rhys Tanat. Cerys Scott yn ail (i'r dde); Selena Williams a Sian Duckett (i'r chwith) gweler t.23



Enillwyr celf a chrefft yr Urdd o Ysgol Penrhyn-coch – Charlotte Ralphs, Arwen Exley, Sian a Gwenan Jenkins – gweler t.20

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD – Iona Bailey**

**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 832980

**CADEIRYDD – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION – Rhodri Morgan**
Maes Mieri, Llandre, ☎ 828 729
rhodrimoc@yahoo.co.uk

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**

**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Swyddfa'r Post ☎828 201

**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dai Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660

**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** - Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** - Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
**Mrs Mair England**
Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** - 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

## Rhifyn Ebrill
## Deunydd i law: Ebrill 4 Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 16

**MAWRTH 21** Nos Wener Eisteddfod fach ni dan ofal Arwel 'Rocet' Jones. Cymdeithas y Garn yn festri'r Garn am 7.30

**MAWRTH 27** Nos Iau Clwb CIC Noson chwaraeon gyda Derfel Reynolds am 7.00 Lleoliad i'w gadarnhau.

**MAWRTH 28** Nos Wener Noson gyda Sgarmes yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth am 7.30 Pris £20 (cynnwys bwyd) Elw i'w rannu rhwng Sioe Sir Aberystwyth Ceredigion ac Ambiwlans Awyr Cymru.

**MAWRTH 29** Nos Sadwrn Cofiwch droi y clociau ymlaen!

**EBRILL 4-5** Nos Wener a Dydd Sadwrn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch.

**EBRILL 10** Nos Iau Clwb CIC Nos Iau 10 Ebrill Helfa Drysor Basg. Manylion i ddilyn.

**EBRILL 11** Dydd Gwener Ysgolion Ceredigion yn cau am wyliau'r Pasg.

**EBRILL 12** Dydd Sadwrn Diwrnod Maes Cymru yn IBERS, Penrhyn-coch.

**EBRILL 12** Bore Sadwrn Sêl Pen Bwrdd Neuadd Rhydypennau.

**EBRILL 12-13** Dyddiau Sadwrn a Sul Twrnament Ieuenctid Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch

**EBRILL 14** Nos Lun Dros y top: Theatr Bara Caws yn cyflwyno rifiw am y Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghanolfan y Celfyddydau am 7.30

**EBRILL 19** Prynhawn Sadwrn Te Pasg yr Eglwys yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor rhwng 1.30 – 3.30.

**EBRILL 19** Nos Sadwrn Noson gyda Dafydd Iwan a Bois y Gilfach yng Ngwesty Llety Parc, Aberystwyth am 8.00. Tocynnau £10 ar gael oddi wrth Megan Jones (01970) 612768. Holl elw'r noson tuag at Apêl Elain.

**EBRILL 19** Dydd Sadwrn Gweithdy'r Pasg yn Neuadd Eglwys St Ioan, Penrhyn-coch rhwng 10 a 12.00. Mae croeso i blant sy'n 3 oed a throsodd.

**EBRILL 28** Dydd Llun Ysgolion Ceredigion yn ailagor ar ôl gwyliau'r Pasg.


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru


## CYMANFA GANU UNEDIG GOGLEDD CEREDIGION

**Rihyrsals**
**Nosweithiau Mercher 7.00**

| | |
|---|---|
| 26 | Capel y Morfa |
| 2 | Bethel Tal-y-bont |
| 9 | Seion Aberystwyth |
| 16 | Capel y Garn, Bow Street |
| Ebrill 30 | Horeb, Penrhyn-coch |
| Mai 7 | Bethel, Aberystwyth |

Cynhelir y Gymanfa yng Nghapel Bethel, Aberystwyth dydd **Sul Mai 11 am 10.00 a 5.30.**
Arweinydd: Margaret Daniel, Aberporth.

**Ymunwch â Grŵp Facebook Ytincer**

### Camera'r Tincer

Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

### Y Tincer ar dâp

Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB (☎ 612 984)

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Chwefror 2014**

£25 (Rhif 3) Eurgain Rowlands, Hafod Heli, Y Borth
£15 (Rhif 240) Teulu Bod Hywel, Bow Street
£10 (Rhif 214) Alwyn Hughes, Gwarcm Hen, Capel Madog

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tim dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Chwefror 19
Os oes rhai eisiau ymuno â Chyfeillion Y Tincer cysylltwch â Bethan Bebb. £5 y flwyddyn.

Cilmeri
Ffordd Ddewi
Aberystwyth

Annwyl Olygydd

**Eisteddfod Aberystwyth**
A gaf i drwy eich papur bro wahodd eich darllenwyr i gystadlu yn Eisteddfod Calan Mai Morlan Aberystwyth.

Cynhelir yr eisteddfod eleni ar ddydd Mercher, Ebrill 30, gan gychwyn am 4 y prynhawn. Fel y llynedd mae yna amrywiaeth o gystadlaethau - o'r traddodiadol (unawd, llefaru, partïon canu a cherddorol, a chorau), i'r ysgafn (cystadleuaeth Sgen Ti Dalent? a bwyta cacen Jaffa!), i'r annisgwyl (trefniant blodau, a ffotograffiaeth), i'r arferol (englyn, limrig a thelyneg). A llawer mwy wrth gwrs. Mae rhywbeth i bawb - o bob oed, yn ddysgwyr ac yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

Cofiwch, steddfod leol yw hon - i bobl Gogledd Ceredigion. Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru i gystadlu yw Ebrill 10fed ac mae pob darn o waith cartref i ddod i law erbyn Ebrill 20fed. Mae'r rhaglen ar wefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru: www.steddfota.org neu ar gael o Siop Inc, Siop y Pethe ac amryw o lefydd eraill, neu drwy ffonio Dana Edwards 01970 623003.

Felly dewch yn llu i gefnogi eisteddfod ifancaf Cymru.

Yn gywir iawn

Dana Edwards
Cydlynydd



## 30 MLYNEDD YN OL

Rhan o'r gynulleidfa yn Festri Dyffryn, Goginan, yn ystod darlith Miss Beti Griffiths. Llun: Ian Sant (*O Dincer* Mawrth 1984)

## LLYTHYR PWYLLGOR COFFA T. LLEW JONES

Annwyl Gyfeillion
**CANMLWYDDIANT GENI T. LLEW JONES, 11 HYDREF 2015**

Ar yr 11eg Hydref, 2015 byddwn yn dathlu canmlwyddiant geni T. Llew Jones, un o lenorion amlycaf Cymru yn enwedig ym maes llyfrau plant.

Bwriad Pwyllgor Coffa T. Llew Jones yw ceisio sicrhau y bydd Cymru gyfan ynghlwm â'r dathlu. I'r perwyl hwn mae'r Pwyllgor yn awyddus i sefydliadau a chymdeithasau ledled Cymru i ystyried ym mha fodd yr hoffent ddathlu'r achlysur pwysig hwn.

Gwyddom y bydd cymdeithasau a mudiadau yn eich ardal yn mynd ati'n fuan i drefnu rhaglen ar gyfer y dyfodol. Byddem yn falch petaent yn ystyried cynnwys rhyw elfen o waith neu atgof yn gysylltiedig â T. Llew Jones yn eu rhaglen arfaethedig.

Ar ôl i chi, fel cymdeithasau a mudiadau gael amser i feddwl a chynllunio byddem yn gwerthfawrogi petaech yn gadael i mi wybod beth fydd eich bwriad. Cawn gyfle wedyn i hysbysebu'r digwyddiadau ar ein gwefan ac yn y wasg Gymraeg.

Medrwch gysylltu â ni ar y cyfeiriad isod neu drwy ebost at owennadavies@btinternet.com. Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Yr gywir
**M. Owenna Davies**
(Cadeirydd)
Cledlyn, Ffostrasol, Llandysul, Ceredigion.
SA44 4TF,

### Rhoddion

Diolch i Dewi Hughes, Bodhywel, am ei rodd i'r Tincer o £30, gwobrau mis Tachwedd a Mis Chwefror.

### YN EISIAU

Rhywun i gasglu *y Tincer* o'r Lolfa yn Nhal-y-bont tua 3.30 a'i ollwng yn Llandre tua'r trydydd nos Fercher yn y mis o Fedi i Fehefin.

Hefyd rhywun i ofalu am yrru *y Tincer* Trwy'r Post i danysgrifwyr. Os ydych â diddordeb, cysylltwch â ysgrifennydd y Tincer. Anwen Pierce, 3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP (01970 828 337)


**Telerau hysbysebu**
Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis.
Cysyllter â Rhodri Morgan os am hysbysebu.

# PENRHYN-COCH

Oedfaon

Horeb
Mawrth
23 10.30 Oedfa bregeth Gweinidog
30 10.30 Oedfa deuluol i ddathlu Sul y Mamau Gweinidog

Ebrill
6 10.30 Ysgol Sul o dan arweiniad Ceri
2.30 Oedfa gymun Gweinidog
13 10.30 Oedfa deuluol Gweinidog
20 2.30 Oedfa bregeth Gweinidog
27 10.30 Oedfa bregeth Gweinidog

## Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch

Dyddiadau Gwasanaethau Dros y Pasg
Mawrth
26 Dydd Mercher – Cymun – 10.00am
30 Dydd Sul (Sul y Mamau) Cymun 10.45am

Ebrill
2 Dydd Mercher, Cymunm – 10.00am
6 Dydd Sul (Sul y Dioddefaint) Cymun – 10.45am
9 Dydd Mercher, Cymun – 10.00am
13 Dydd Sul (Sul y Blodau), Cymun 10.45am
16 Dydd Mercher, Cymun – 10.00am
17 Dydd Iau (Iau Cablyd), Cymun 7.00pm
18 Dydd Gwener (Myfyrdod ar y Groes) 2.00pm
20 Dydd Sul (Y Pasg), Cymun – 10.45am
27 Dydd Sul (Boreol Weddi) – 10.45am

Mai
4 Dydd Sul (Esgob Conffformasiwn) Cymun – 10.45am

## Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 26 Mawrth a 9 a 23 Ebrill. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

## Croeso

Croeso i'r ardal i Sara a Rhodri Gibson, Mari a Gwen, sydd wedi symud o Gaerdydd i Plas Gwyn. Mae teulu y ddau riant yn hanu o'r sir hon er iddynt hwy gael eu magu yn y gogledd a'r de! Mae Sara (née Evans) yn wyneb cyfarwydd ar y teledu ac yn gweithio efo'r BBC yn Aberystwyth. Gobeithio y byddant yn mwynhau bywyd yng Ngheredigion.



## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Megan Davies, Pantdrain a Gwladys Roberts, Minafon ar farwolaeth eu brawd yn Llanddewibrefi ddiwedd mis Chwefror.

## Gweithdy'r Pasg

Cynhelir Gweithdy'r Pasg yn Neuadd Eglwys St Ioan dydd Sadwrn, 19 Ebrill rhwng 10 a 12 o'r gloch. Mae croeso i blant sy'n 3 oed a throsodd.

## Cymry ar Wasgar

Bu Eryl Williams, Upton, Massachusetts yn siarad efo Shan Cothi ar y radio ar Fawrth 12fed. Roedd yn 22 mlynedd ers iddo gyrraedd y dalaith. Roedd ganddo ef a Shan rywbeth yn gyffredin – ceffylau a chafwyd sgwrs ddifyr am hynny. Mae Eryl yn fab i'r diweddar Alun Williams, prifathro Ysgol Penrhyn-coch a soniodd am ei gyfnod yn ddisgybl yma ym Mhenrhyn-coch cyn i'w dad symud i Aberaeron. Soniodd fod ei fam - Sylvia Williams - allan ar daith yn Awstralia yn canu gyda Chôr Sefydliad y Merched Ceredigion. Buont yn canu mewn Cymanfa Ganu yng Nghapel Cymraeg Melbourne fel rhan o'u dathliadau Gŵyl Ddewi.

## Pen blwydd hapus

Dymuniadau gorau i Mair Jenkins, Cwmbwa, fydd yn dathlu ei phen blwydd yn 70 ar 23 Mawrth.

## Penodi

Llongyfarchiadau i Ruth Evans, Maesyfelin, ar gael ei phenodi i swydd yn Ysgol Penrhyn-coch.

## Celf a chrefft

Llongyfarchiadau i ddwy o Benrhyn-coch sydd yn ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Penweddig enillodd yng nghystadlaethau celf a chrefft Bl 7 8 a 9 yr Urdd. Daeth Sioned Exley, Ger-y-llan, yn gyntaf am Emwaith a Seren Wyn Jenkins, Garej Tŷ Mawr yn gyntaf ar Ddylunio a Thechnoleg, Print Monocrom, a Phrint Lliw ac yn ail ar gyfres o brintiau lliw.



## Clwb Hanner Tymor

Daeth criw ynghyd i fwynhau deuddydd o weithgareddau amrywiol yn y Clwb Hanner Tymor yn Horeb.

## Ailddarlledu

Fel rhan o ddathlu BBC Cymru yn 50 darlledwyd yn ddiweddar ar Radio Cymru raglen o'r gyfres Pwlffacan a recordiwyd yng Nghlwb Pel-droed Penrhyn-coch sawl blwyddyn nôl! Cyflwynwyd y rhaglen gan Emyr Wyn ac aelodau y panel oedd Gaenor Davies, Ifan Griffith, Tony Llewelyn a Dewi Pws. Oeddych chi yn y gynulleidfa?

### Cylch Ti a Fi

Bwriedir ailsefydlu y Cylch Ti a Fi yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch fore dydd Mercher 19 Mawrth o 10.00 - 12.00 ac yna bob bore dydd Mercher rhwng 10 a 12.00. Am fwy o fanylion cysyllter â Zoe Glynne Jones 07584 411 524 zoejones34@gmail.com.

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Mervyn a Sue Hughes ar golli ewythr i Sue ym Mhorthmadog yn ddiweddar. Hefyd cydymdeimlwn â Mair Evans ar golli cyfnither yn ddiweddar; hefyd â theulu a chysylltiadau y diweddar Tommy Davies, Tyncwm.

### Genedigaethau

Llongyfarchiadau i Meirion a Rhian Roberts, y Ddôl Fach ar enedigaeth merch fach - Nesta Meirion dydd Mawrth 11 Mawrth.

Llongyfarchiadau i Darius a Iona Jakubek, 18 Dôl Helyg, ar enedigaeth mab – Kai – ar Fawrth 7fed – brawd bach i Alexandra a Victoria.

### Merched y Wawr Penrhyn-coch

Croesawyd pawb i'r cyfarfod ar nos Iau 12fed o Chwefror gan ein Llywydd, Sue Hughes, ac yr oedd yn bleser cael croesawu Elizabeth Evans, un o swyddogion Merched y Wawr Rhanbarth Ceredigion a Phenfro, ac un o gyn-aelodau Cangen Penrhyn-coch. Aed ymlaen wedyn i drafod y busnes arferol. Cydymdeimlwyd â rhai o'r aelodau oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar. Trafodwyd Chwaraeon Merched y Wawr, a gwahoddwyd rhai i ymuno â chôr lleol gogyfer ag Eisteddfod Penrhyn-coch. Yna fe groesawodd ein Llywydd Glenys Morgan, ein gwraig gwadd - un o aelodau'r gangen i gymryd at y noson. Mae Glenys yn adnabyddus bellach efo'i gwaith o wneud cardiau unigryw ar gyfer pob math o achlysuron. Hefyd gwneud defnydd o unrhyw fath o bapur ac mae hefyd yn gwneud gemau. Fe roddodd y cyfle i bob un ohonom wneud cerdyn, ac fe fu pawb yn brysur iawn, ac fe dreuliwyd noson ddifyr iawn. Diolchwyd yn swyddogol i Glenys gan Elizabeth Wyn ac yna chafwyd cwpanaid a chlonc a thynnu'r raffl fisol i ddiweddu noson wych arall.

### Ysbyty

Gwellhad buan i Connie Evans sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.



### Gwasanaeth cyflwyno

Brynhawn Sul Mawrth 2il yn ystod oedfa gymun yn Horeb cyflwynwyd Caitlin Rees Roberts, merch Karen a Mathew Roberts gan y gweinidog, y Parchg Judith Morris. Nid yw Caitlin yn ddiarth i Horeb – fe gymerodd ran y baban Iesu yn y cyflwyniad Nadolig. Yn y llun gwelir ei brawd mawr Owen Jac ac roedd yn dda cael croesawu Lynne Hughes, modryb Caitlin, gartref ar wyliau o Kuwait.

### CANLYNIADAU PÊL-DROED PENRHYN-COCH

**Cynghrair**

| | |
|---|---|
| 22/02/14 | Rhaeadr 1 - 2 Penrhyn-coch |
| 25/02/14 | Penrhyn-coch 2 - 1 Llanrhaeadr |
| 01/03/14 | Penrhyn-coch 2 - 0 Rhyd-y-mwyn |
| 08/03/14 | Fflint 1 – 0 Penrhyn-coch |

**Cwpan Canolbarth Cymru**

| | |
|---|---|
| 04/03/14 | Llanidloes 1 - 2 Penrhyn-coch |

**Eilyddion Penrhyncoch**

| | |
|---|---|
| 22/02/14 | Eilyddion Penrhyn-coch 4 Eilyddion Machynlleth |

3ydd tîm

| | |
|---|---|
| 05/03 | Penrhyn-coch 1 – 4 Prifysgol Aberystwyth |
| 22/02 | Tywyn 3 – 3 Penrhyn-coch Cwpan |

**Menywod Penrhyncoch**

| | |
|---|---|
| 23/02 | Prifysgol Aberystwyth 0 Penrhyn-coch 0 |
| 09/03 | Llanbedr Pont Steffan 8 Penrhyn-coch 1 |

**Twrnament Ieuenctid Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch Sadwrn a Sul Ebrill 12-13**

**Am fanylion cysylltwch â Glenys Morgan (01970) 828 645**



### Cymdeithas y Penrhyn

Cawsom noson hynod o ddifyr yng nghwmni Iestyn Hughes, Bow Street, yma yng Nghymdeithas y Penrhyn, nos Fercher, 19 Chwefror.

Esboniodd iddo ymddeol yn gynnar o'i swydd yn Archif Genedlaethol Sgrîn a Sain Cymru yn y Llyfrgell Genedlaethol yn 2011. Ers 2012 bu wrthi'n creu busnes delweddau sy'n cynnig gwasanaeth lluniau i gyhoeddwyr, unigolion, papurau, a gwefannau newyddion a chylchgronau – cwmni Atgof.

Bu'n brysur tu hwnt yn sgìl tywydd eithafol y blynyddoedd diwethaf - llifogydd 2013 ac yn enwedig stormydd geirwon gaeaf eleni. Gyda'i luniau, tywysodd ni drwy'r flwyddyn a chawsom weld y tymhorau yn eu gogoniant. Mae'n amlwg ei fod yn cael boddhad mawr yn creu'r delweddau.

Yn sicr, cawsom ni fwynhad o'u gweld a rhannu o'i hanesion difyr, ac roedd cyfle ar y diwedd i brynu detholiad o gardiau a gynhyrchwyd o'i luniau.





Cawl a chân yn Horeb gyda Cantre'r Gwaelod

# TREFEURIG

### Pum cenhedlaeth

Nos Sul bydd rhaglen arbennig Dechrau canu dechrau canmol ar gyfer Sul y Mamau am bum cenhedlaeth teulu o Ben-bont Rhydybeddau. Byddant yn dewis eu hoff emynau ac yn trafod beth mae bod yn fam yn olygu iddynt. Gwelir y pum cenhedlaeth yn y llun - Marion Jones, ei merch Edwina Davies, ei merch hi Shân Clarke gyda'i merch Hanna a'i wyres Leila. Cynhyrchydd y rhaglen yw Rhodri Darcy – fagwyd ym Maesyrefail, Penrhyn-coch; bu Edwina Davies yn gofalu amdano yng Nghylch Meithrin Trefeurig pan yn fach, felly , yn ôl Rhodri roedd yn brofiad sbeshal ffilmio'r rhaglen gyda hi! Cafodd Rhodri amser prysur yn ddiweddar hefyd – bu'n cynhyrchu cyngerdd Karl Jenkins ar gyfer S4C; fo oedd yn gyfrifol am Songs of Praise gyda Huw Edwards ar gyfer Gŵyl Ddewi a hefyd y rhaglen Cân i Gymru yn Ynys Môn.



# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Colli Eirlys Davies

Daeth tristwch mawr i'r ardal yn ystod y mis diwethaf pan ddaeth y newydd am farwolaeth Eirlys Davies, Caehaidd, ar ôl cyfnod eithaf byr o salwch. Treuliodd ei oes hir o bron i naw deg mlynedd yn byw yn Caehaidd, ac er iddi golli ei rhieni a'i thad-cu a'i mam-gu cyn ei bod yn ugain oed, parhaodd i fyw yn y cartref a gofalu am yr anifeiliaid ar y tyddyn bach ar ei phen ei hun am rai blynyddoedd. Priododd â Dan Davies o Ysbyty Ystwyth a ganwyd iddynt dair merch, Margaret, Ann a Delyth.P an ddaeth y Pwerdy i Gwmrheidol daeth a llawer o newid yn ei sgîl ond mi wnaeth hi a'r teulu addasu eu bywyd i'r newid yma. Bu yn gwneud gwahanol waith o fewn y Pwerdy gan orffen fel tywysydd i'r ymwelwyr sydd yn dod i weld y lle bob blwyddyn. 'Roedd hi a Dan yn adnabyddus iawn yn yr ardal gan eu bod yn gystadleuwyr brwd iawn yn y cystadlaethau blodau yn y sioeau cyfagos, ac yn enillwyr cyson iawn. 'Roedd yn gefnogol iawn i bob peth yn yr ardal, yn un o'r aelodau a sefydlodd Urdd y Benywod yn y Cwm, yn aelod o Merched y Wawr Melindwr ac yn gyn ohebydd y Tincer. 'Roedd Capel Llwyn-y-groes yn agos iawn at ei chalon, mi 'roedd yn flaenores ers nifer o flynyddoedd a hi a Gwen Morgan fyddai bob amser yn gofalu fod y lle yn cael ei lanhau ar gyfer y Sul. Mae yna fwlch mawr ar ei hôl gan ei bod a gwybodaeth eang a chof da iawn am yr amser a fu. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu yn gyfan.

### Cwrdd Gweddi Chwiorydd y Byd

Tro Capel Llwyn-y-groes oedd cynnal y Cwrdd eleni a daeth nifer dda o aelodau Capel Pen-llwyn, Capel Y Dyffryn Goginan ac Eglwys Capel Bangor i ymuno â ni. Arweinwyd y Gwasanaeth gan Beti Daniel a'r organyddes oedd Heulwen Lewis. Y siaradwraig wadd oedd Zoe Glynne Jones, Swyddog Menter Gobaith Gogledd Ceredigion. Cafwyd anerchiad hyfryd ganddi a braf oedd cael ei chroesawu i ardal Cwmrheidol am y tro cyntaf ar brynhawn mor braf. Cafwyd lluniaeth wedi ei baratoi gan Aelodau Llwyn-y-groes i orffen y prynhawn. Diolch i bawb am eu cydweithrediad.

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerig mán
01970 820149
07980 687475

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

Pennau
COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi
(fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.
Caffi 01970 820 050 | Siop Treasures 01970 820 122



**PLEIDLEISIWCH AM SIOE ABERYSTWYTH A SIR CEREDIGION SYDD WEDI CYRRAEDD ROWND DERFYNOL CYSTADLEUAETH SIOEAU 2014 Y FARMERS GUARDIAN !!!**

Mae Pwyllgor Sioe Aberystwyth a Sir Ceredigion yn falch o gyhoeddi bod y Sioe wedi cyrraedd rownd derfynol cystadleuaeth sioeau enwog y Farmers Guardian 2014. Curodd sawl sioe arall ledled y DU a nawr mae ganddi gyfle da i ennill y brif wobr.

Yn ôl Cadeirydd y Sioe Wendy Davies. "Yn sicr mae'n anrhydedd i ni gyrraedd y rownd derfynol. Rydym wedi gwybod ers tro bod gennym Sioe arbennig - nid yw o ganlyniad i un peth yn benodol, ond cyfuniad o sawl ffactor. Credaf ein bod yn sioe fawr sy'n cael ei rhedeg yn ôl gwerthoedd sioeau bychain lleol. Rydym wedi llwyddo i gynnal awyrgylch teuluol a chyfeillgar, ac wrth wneud hynny yn ymdrechu i groesawu a diddori pobl o sawl cefndir, pa un ai eu bod yn ffermwyr neu'n fferyllwyr, bugeiliaid neu beirianwyr. Mae pawb yn bwysig, ac rydym yn trio sicrhau o flwyddyn i flwyddyn bod pob unigolyn yn cael hwyl yn y Sioe."

Ddwy flynedd yn ôl wynebodd y pwyllgor y cur pen o orfod canslo'r Sioe lai na 24 awr cyn ei chynnal oherwydd y tywydd gwael. Er mor anos y penderfyniad, fe brofodd y penderfyniad cywir, oherwydd ar fore'r Sioe roedd rhan helaeth o'r maes yng Ngelli Angharad dan ddŵr a nifer o bentrefi lleol hefyd wedi eu heffeithio'n ddifrifol gan y llifogydd gwaethaf yn yr ardal mewn cof.

"Roedd dyfodol ein digwyddiad yn y fantol yn dilyn y penderfyniad, ond diolch i'n noddwyr ffyddlon, a'n harddangoswyr cefnogol a oedd yn fodlon cynnal eu cefnogaeth ariannol tan y flwyddyn ganlynol, fe lwyddon ni i gynnal y Sioe yn 2013. Gellid dadlau mai Sioe 2013 oedd un o'r sioeau gorau erioed i ni. Rydym yn griw gwydn iawn, ac fe wnaeth bawb gyd-dynnu gan olygu bod dyfodol y Sioe wedi'i hadfer," ychwanegodd Wendy Davies.

Sioe Aberystwyth yw'r unig Sioe yng Nghymru i gael ei gosod ar y rhestr fer, ac os yn llwyddiannus, bydd yn ennill pecyn hyrwyddo gwerth miloedd o bunnoedd. Penderfynir ar yr enillydd drwy gyfuniad o bleidlais y cyhoedd ar wefan y *Farmers Guardian* a barn beirniaid amlwg.

Mae'r Sioe hefyd yn gweithio er budd elusennau lleol. Ar 28ain o Fawrth bydd Sioe Aberystwyth a Sir Ceredigion yn cynnal Cinio Elusennol yng Ngwesty'r Marine yng nghwmni grŵp o gantorion adnabyddus 'Sgarmes' a hyfforddir gan Elinor Powell. Bydd y noson yn codi arian er budd Ambiwlans Awyr Cymru a'r Sioe. Mae tocynnau ar werth am £20 yn Siop Inc, Stryd y Bont, Aberystwyth neu gan Ysgrifenyddes y Sioe Meinir Evans 01974 200814.


Bydd Pwyllgor Sioe Aberystwyth a Sir Ceredigion yn ddiolchgar o gefnogaeth y cyhoedd, felly ewch i fwrw eich pleidlais ar wefan y Farmers Guardian www.farmersguardian.com/showbusiness

**Y dyddiad cau yw'r 23ain o Fawrth**.

# Taith gerdded y mis

## Y Borth i Ynys-las

**Man dechrau**: Pen pellaf y Borth, wrth ochr y wal.
**Map**: OS Explorer OL23. GR607907.
**Pellter**: 5.5 milltir ar y gwastad.




Cerddwch ar y wal hyd at ei diwedd ac fe welwch lwybr yn croesi'r cwrs golff a'r rheilffordd. Ewch ymlaen i gwrdd â'r afon Leri a cherdded ar hyd y clawdd i gwrdd â'r heol – dros y rheilffordd a'r bont a throi i'r dde ar hyd feidr ger y storfa gychod a fydd yn mynd draw a chi i'r traeth. Dilynwch ochr y twyni ac ewch heibio'r ganolfan ymwelwyr, i fyny'r grisiau pren a thrwy'r twyni nes cyrraedd y traeth. Yn ôl i'r man dechrau ar hyd y traeth. Os fydd y llanw i fewn mae yna lwybr ar hyd y twyni.

## Cronfa Eleri 2013

Cyhoeddwyd pwy oedd i dderbyn cymorth gan Gronfa Eleri eleni. O'r 18 o geisiadau, cefnogwyd 13 ohonynt. Cyfanswm y taliadau a gymeradwywyd eleni oedd £14,050, wedi ei rannu rhwng 'Cofio'r Rhyfel Mawr', Capel y Garn, Treialon Cŵn Defaid, Cae'r Odyn Galch, Cwmni Cletwr – Siop Cynfelyn, CIC Penrhyn-coch, Horeb, Penrhyn-coch, Cylch Meithrin Tal-y-bont, Pêl-droed Ieuenctid Tal-y-bont, Pêl-droed Tal-y-bont, Pêl-droed Bow Street, Sioe Llangynfelyn ac Ysgol Rhydypennau. Disgwylir y bydd y gronfa ar agor eto i dderbyn ceisiadau ddiwedd mis Tachwedd 2014. Bydd hysbyseb yn y Tincer pryd hynny. Am ragor o fanylion am Gronfa Eleri, ewch i wefan Y Gronfa: www.ynniamge.com/Cronfa Eleri/Hafan.html




**Iwan Jones**
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
01970 820124
07709 505741

# LLANDRE






## Myfyrwyr meddygol ar daith

Clywyd sgwrs ddifyr ar Raglen Radio John Hardy brynhawn Mercher 5 Mawrth gan Osian Penri, Taigwynion a Cynon Gwilym o ardal Llanllechid - mae'r ddau allan yn Affrica fel rhan o brofiad gwaith o'u cwrs meddygol ym Mhrifysgol Caerdydd. Maent wedi eu lleoli yn Tonga, ar gyrion Swaziland a Mozambique ac wedi cyrraedd yno trwy gysylltiadau y Brifysgol.

Eglurodd Osian ei fod yn awyddus i fynd i Dde Affrica neu Seland Newydd i wneud ei brofiad elective. Gwelodd y ddau gryn wahaniaeth yn y math o gleifion oedd yn yr ysbytai yno i gymharu â Chymru. Adref mae yr ysbytai yn llawn o bobl hŷn gyda chlefydau cronig sydd wedi bod arnynt ers sbel; cleifion iau oedd yn Tonga yn dioddef o glefydau fel HIV/Aids, malaria, a TB. Nid yw bywyd yn hawdd yna – roedd diffyg dŵr, a cheid toriadau trydan - bu'n rhaid iddynt ddefnyddio y ffôn symudol fel torch i barhau gydag un driniaeth.

Cafwyd profiadau amrywiol - gweld neidr wenwynig ac aros i dynnu ei llun ond deall wedyn un mor beryg oedd hi! Roedd yn braf gweld yr holl anfieiliaid o bell llewod , eliffantod yb– braf edrych arnynt o bell!

Ar ddiwedd eu cyfnod maent yn edrych ymlaen i logi car a dreifio i Cape Town, ac ar ôl pythefnos yno hedfan i Tanzania a Zanzibar.

A'r dyfodol? Wel mae'r ddau yn gobeithio dechrau gweithio ym mis Awst ar ôl graddio; mwynhaodd Osian gyfnod gyda meddyg teulu yn Aberystwyth eleni ac roedd hefyd wedi cael blas ar weithio ar achosion brys. Dymuniadau gorau iddynt.

## Merched y Wawr Llanfihangel Genau'r-glyn

**'DOES DIM AMSER I AROS'**

Dyna oedd testun ein gŵr gwadd yn ystod y cyfarfod mis Chwefro. Daeth Glan Davies o Sefydliad Prydeinig y Galon i sôn wrth yr aelodau am ymgyrch ddiweddaraf y Sefydliad, sef sicrhau bod 'Diffibriliwr' yn cael ei osod mewn man amlwg yn y pentref ac y dylid trefnu fod tîm o'r pentrefwyr yn dysgu sut mae defnyddio'r peiriant er mwyn ceisio achub bywyd unrhyw un sy'n cael trawiad gan y gall yr awr gyntaf fod yn dyngedfennol mewn ceisio achub bywyd yr unigolyn. Trafodwyd y mater a phenderfynwyd y dylai'r Cymdeithasau lleol fod yn ymwybodol o'r ymgyrch yma, gan fod nifer o bentrefi'r ardal eisoes wedi archebu 'Diffibriliwr'.

Gobeithio bod modd i greu ymwybyddiaeth o'r ymgyrch yn lleol.

Noson o frethyn cartref fydd cyfarfod mis Mawrth gyda Mrs. Gwenda James yn trafod hen ryseitiau a dderbyniodd gan ei hen fodryb.

## Banc Bro

**Enillwyr Mis Mawrth 2014**

1. Dr Phil Jones, Maes y Glyn - £30
2. Mary Thomas, Dolgelynen - £20
3. Lorraine a Greg Hill, Maeshenllan - £10

Mae angen i aelodau'r Clwb ail-gofrestru ar gyfer 2014. Cysylltwch â'r Trysorydd Dai England, Pant y Glyn Llandre, 01970 828693.

## Treftadaeth Llandre

Mawrth 27 - Atgofion faciwî yng Ngorllewin Cymru - Tecwyn Jones
Cynhelir cyfarfodydd yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre, gan gychwyn am 7.30 yh

## Symud Tŷ

Croeso i John a Cara Ann Ashworth, sydd newydd symud i Dolmeillion. Gobeithio byddant yn hapus yn eu cartref newydd.

## Gwasanaeth coffa

Cynhaliwyd gwasanaeth coffa i Randall Enoch, Glynteg, yn Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn ddydd Sadwrn 8fed o Fawrth.

Gwersi Gitâr
Tiwtor: Gerald Morgan, Tregaron
geraldmorganguitar@hotmail.co.uk
www.geraldmorganguitar.co.uk
Gitâr i'r Cristion
01974 299367
Gwasanaeth Symudol
Dysgwch yn eich cartref
CYSYLLTWCH!

# Y BORTH



### Cymdeithas Gymraeg Y Borth

Nos Wener, 28 Chwefror bu'r Gymdeithas yn dathlu Gŵyl ein Nawddsant. Gwesty Llety Parc oedd y lleoliad y tro yma a chafwyd pryd o fwyd blasus iawn yno.
Ein gŵr gwadd eleni oedd Robyn Mason o Heddlu Dyfed Powys ond yn anffodus, ar y munud olaf, ni fu'n bosibl i Robyn ddod ond fel yr hen ddywediad, tu ôl i bob dyn da mae yna wraig dda, ac yn wir felly y bu y tro yma. Cawsom ein cyfareddu gan Lona wrth iddi sôn a dangos sleidiau yn ymwneud â Kyffin Willams a'r cyfrifoldeb fu ar ei hysgwyddau pan etifeddodd y Llyfrgell Genedlaethol luniau etc yn ewyllys Kyffin. Nid dyna i gyd, roedd Lona hefyd wedi trefnu fod un o'i chydweithwyr o'r Llyfrgell, Wyn Thomas, yn dod i sôn a dangos lluniau i ni o'r sustem sydd gan y Llyfrgell Genedlaethol o roi hen gylchgronau a phapurau newydd ar y we. Noson ddifyr a diddorol iawn a diolch yn fawr iawn i'r ddau ohonynt am sefyll yn y bwlch! Y trip blynyddol fydd ein digwyddiad nesaf a hynny ar ddydd Mercher, 18 Mehefin, 2014.

### Cymdeithas Henoed y Borth

Dydd Iau Mawrth 6ed cynhaliwyd ein te parti Gwyl Ddewi. Roeddym mor falch o gael Chris yn ol efo ni ar ol ei stroc a Kath ar ol y driniaeth ar ei chefn. Mae Kathleen a Sadie yn cadw'n dda er nad ydynt yn gallu dod i gyfarfodydd. Paratowyd y bwyd gan y pwyllgor a chawsom wledd hyfryd. Yna buom yn ffodus o gael plant a staff Ysgol Craig yr Wylfa i'n diddanu. Ac fe wnaethant hyn yn wych gyda cherddorion yn canu a dawnsio. Canodd Harvey unawd y bydd yn cystadlu arni a gwelsom y tim dawnsio disgo fydd yn cystadlu yn perfformio. Hwyl fawr iddynt i gyd a diolch iddynt am brynhawn mor hyfryd. Rydym yn cyfarfod pob yn ail dydd Iau am 2.00 yn Neuadd Gymunedol y Borth. Bydd y nesaf ar Fawrth 20fed. Mae croeso i bawb dros 50 yn y Borth a'r cyffiniau. Dewch i ymweld â ni cyn penderfynu ymuno. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Betty 871135, neu Joy 871649

### Eglwys St Matthew

Yn anffodus, yn ystod y stormydd a'r gwyntoedd uchel cododd nifer o'n coed pinwydd hynafol unai yn llwyr neu yn rhannol o'r ddaear a bu'n rhaid eu torri. Amser trist – ond roeddym yn ffodus nad oedd difrod i'r un o'r beddau.
Dydd Sul Mawrth 30ain byddwn yn cynnal Gwasanaeth teuluol a chymun Sul y Mamau. Bydd yn dechrau am 11.15 y bore ac mae croeso cynnes i bawb. Mae ysgol Sul pob Sul yn ystod y gwasanaeth 11.15 a.m. ac mae croeso i aelodau newydd yn y Den wrth ochr ye Eglwys. Am wybodaeth am unrhyw beth ynglyn a Eglwys y Borth gellwch gysylltu a'r Ficer 871889, Margaret 871056, neu Joy 871649.



# GOGINAN

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn gyda Peter Jones a'r teulu, Melody, ar farwolaeth ei chwaer Pearl yn ddiweddar.

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Torri Gwrych a Strimmio, Disgownt i Bensiynwyr.
Ffôn 01974 261758
07792457816
(Nid oes yr un gwaith yn ormod)

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

TACSI EDDIE
Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

ytincer@googlemail.com

# Dydd Gŵyl Ddewi hapus o Ohio!

gan Lisa Jones, Canolfan Madog i Astudiaethau Gymreig, Rio Grande, Ohio

Ar Ddydd Sadwrn, Mawrth y 1af 2014, cynhaliwyd dathliad dydd Gŵyl Ddewi yn Eglwys Bresbyteraidd Oak Hill, Ohio am 1 o'r gloch y.p. Roedd Canolfan Madog wedi bod yn brysur am sbel yn trefnu am yr achlysur arbennig yma, a fynychwyd gan oddeutu 75 o Gymry-Americanaidd. Roedd yna wledda mawr er na welsom unrhyw olwg o picau bach na chawl swmpus, ond roedd yna ddigon o gig cyw iâr a thatws a diod i borthi'r pum mil!

Eleni, roeddwn yn lwcus dros ben cael presenoldeb awdur, golygydd a hanesydd o Langeitho, Eirian Jones, yn rhoi cyflwyniad ar ei llyfr "Mynydd Bach – ei hanes". Mae Eirian wedi bod yn archwilio hanes cyfoethog rhanbarth Mynydd Bach yng Ngheredigion, lle roedd cymaint o deuluoedd yr ardal wedi ymfudo dros y môr i




Ohio. Eglurodd bod yr economi wedi dirywio yng Nghymru ar droad yr 20fed ganrif, a thrigolion Cymru yn gweld posteri yn dweud y byddent yn cael bywyd gwell yn yr Unol Daleithiau. Mewn rhan arall o'r cyflwyniad, arddangosodd Eirian rai lluniau o'i llyfr gan y ffotograffydd Daisy Williams, a oedd yn dangos agweddau ar hanes a diwylliant Cymru. Os nad ydych wedi cael cipolwg ar y llyfr, dwi'n erfyn arnoch i wneud!

Yna, cawsom ein diddanu gan y Madog's Youth Choir – côr perfformio sy'n canu ac adrodd yn y Gymraeg i blant yr ardal o 7-17 mlwydd oed, dan arweiniad fy hun. Cafodd y côr yma ei sefydlu tua blwyddyn a hanner yn ôl, pan symudais i Ohio. Fe lefarom am Ddewi Sant ac fe ganom ganeuon Cymreig adnabyddus megis Hen Ferchetan, Pererin Wyf a Llwyn Onn.

I gloi, fe ganom fel grŵp rhai emynau poblogaidd megis Blodwen, Calon Lân a Chwm Rhondda, ac wrth gwrs, Hen Wlad Fy Nhadau. Roedd canu aruthrol i'w gael; digon i hala ias lawr cefn dyn. Ac i feddwl, fy mod i ben draw'r byd – mae'r Cymry yn Gymry i'r carn, ble bynnag y maent!






# Preswyliad Theatr Genedlaethol Cymru yn Nyffryn Aeron

Cyhoeddwyd yn ddiweddar bartneriaeth rhwng Theatr Genedlaethol Cymru a Theatr Felin-fach ar gyfer eu cynhyrchiad nesaf, **Y Negesydd.** Bydd y cwmni yn cynnal cyfnod preswyl yn Theatr Felin-fach yn Nyffryn Aeron yn ystod mis Ebrill ac yn creu rhaglen llawn o weithgareddau amrywiol yn yr ardal.



Drama newydd gan yr awdures boblogaidd Caryl Lewis, Goginan, yw **Y Negesydd**, a'r actores adnabyddus Ffion Dafis yn cyfarwyddo. Fe gwblhaodd Ffion yn ddiweddar flwyddyn o gynllun hyfforddiant ar gyfer cyfarwyddwyr gyda Theatr Genedlaethol Cymru, Sherman Cymru a Living Puctures Productions. Ar ddiwedd y rhaglen hyfforddiant honno, fe gyfarwyddodd fersiwn gynnar a byr o ddrama Caryl yn Theatr y Sherman ym mis Medi y llynedd. Fe aeth ati wedyn i weithio gyda Caryl i ddatblygu'r ddrama honno ymhellach nes llunio'r ddrama lawn hyd hon ar gyfer ein prif lwyfannau. Dyma fydd y tro cyntaf i Ffion gyfarwyddo drama lawn hyd, ac mae Theatr Genedlaethol Cymru yn falch iawn o fedru cynnig y cyfle hwn iddi, wedi i'r cwmni chwarae rhan mor flaenllaw yn natblygiad ei chrefft fel cyfarwyddwr theatr.

Enillydd BAFTA Cymru am yr actores orau yn 2013 sef Sara Lloyd-Gregory, welwyd yn y gyfres Alys fel y prif gymeriad, fydd yn chwarae'r brif ran yn y ddrama sydd wedi ei lleoli yng nghefn gwlad Ceredigion. Fel brodor o'r ardal, mae Caryl Lewis yn ysgrifennu am ei milltir sgwâr yn aml yn ei nofelau, ond dyma'r tro cyntaf iddi ysgrifennu drama lawn ar gyfer y llwyfan.

Hanes Elsi yw **Y Negesydd**, a'r sibrydion sy'n poeni ei chymuned cefn gwlad. Mae Elsi'n sgwrsio gyda'r meirwon ac mae hyn yn anesmwytho ei chymuned draddodiadol. Ond ai rhodd neu groes i Elsi yw ei dawn anghyffredin? Dyma stori iasol y negesydd wrth iddi ail fyw nid yn unig ei gorffennol ei hun, ond boen a thrallod y gymdogaeth i gyd. Meddai awdur y ddrama, Caryl Lewis;

*"Mae hi'n ddrama ddirdynnol am y tyndra oesol rhwng yr hen a'r ifanc. Mae yna themâu o wahaniaeth ac euogrwydd ac astudiaeth o'r broses greadigol ei hun. Fydd yna eiliadau iasoer fydd yn codi gwallt eich gwariau ond hefyd eiliadau o pathos wrth weld cymuned fach yn ffwndro yng nghwyneb newidiadau enfawr."*

Yn ystod y cyfnod ymarfer bydd Theatr Genedlaethol Cymru yn ail-leoli i Theatr Felin-fach am dair wythnos i gynnal preswyliad yn yr ardal, gan weithredu rhaglen brysur o ddigwyddiadau a gweithdai. Meddai Mike Salmon, Cynhyrchydd Cyswllt Theatr Genedlaethol Cymru;

*"Rydym y'n edrych ymlaen yn fawr i gyd-weithio gyda Theatr Felin-fach . Mae'r gwaith wedi cychwyn eisioes i baratoi rhaglen gyffrous ar gyfer yr ardal gyfan. Mae Theatr Felin-fach yn gwneud gwaith arbennig yn ei gymuned, ac rydy' ni'n edrych ymlaen at rannu adnoddau gyda nhw i geisio gyrraedd cymaint o bobl ag sy'n bosib gyda digwyddiadau fydd yn datblygu sgiliau ac yn llawer o hwyl."*

Bydd Y Negesydd yn agor yn Theatr Felin-fach ar y 1af o Fai (gyda rhagddangosiad ar y 30ain o Ebrill). Bydd yn Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth ar 24 Mai am 19:30.
Tocynnau: 623232

# O'r Cynulliad – Elin Jones



Rwy' o hyd yn mwynhau pan ddaw S4C a rhaglen Pawb a'i Farn i Geredigion. Doedd rhifyn mis Chwefror o Aberystwyth yn ddim gwahanol, gyda chynulleidfa fywiog a gwybodus yn barod i roi sialens i ni'r panelwyr. Fel arfer, roedd y pynciau'n amrywiol. Trafodwyd effaith y stormydd ar Gymru, a'r toriadau llym sy'n wynebu ffermwyr oherwydd penderfyniad – anghywir yn fy marn i – Llywodraeth Cymru ar gymorthdaliadau Ewropeaidd. Cafwyd dipyn o gonsensws ymhlith y gynulleidfa ar yr angen i gadw gwasanaethau mewn ysbytai lleol, ac hefyd trafodaeth ddifyr ar gyllid prifysgolion. Roedd rhai o'r farn na ddylid rhoi cymorthdal ffioedd i fyfyrwyr sy'n dewis mynd i Brifysgolion tu fas i Gymru, ond roedd gwahaniaeth barn. Difyr iawn oedd sgwrsio ar ôl y rhaglen gyda rhai o ddisgyblion Ysgol Penweddig.

Mynegodd y disgyblion farn gref a diddorol ar y pwnc, a does dim syndod, o ystyried fod Estyn wedi barnu safonau addysg Ceredigion fel y rhai gorau yng Nghymru! Llongyfarchiadau mawr i athrawon y sir a phawb a fu ynghlwm â sicrhau canlyniadau mor glodwiw. Rwy' wedi mwynhau mwy o dystiolaeth o gyrhaeddiad uchel disgyblion Ceredigion yn ddiweddar hefyd. Da oedd cwrdd â chriw Llambed yn y Cynulliad fel rhan o recordio rhaglen deledu Hacio. Cefais y fraint hefyd o fynychu Eisteddfod Ysgol Tregaron a gweld safon uchel y cystadlu yno, ac hefyd llongyfarchiadau gwresog i ddisgyblion Ysgol Aberaeron am ennill cystadleuaeth busnes yn ddiweddar. Pob lwc iddynt yn cynrychioli Cymru yn y rownd derfynol yn Llundain.

Parhau mae'r ymgyrchu i geisio sicrhau'n gwasanaethau iechyd. Yn dilyn deiseb effeithiol Cyfeillion Ysbyty Aberteifi – un o'r mwyaf a gyflwynwyd i'r Cynulliad erioed – bum i'n cwrdd â'r Gweinidog Iechyd i drafod y sefyllfa yn ne Ceredigion. Lleisiais fy mhryderon am y penderfyniad diweddar i gau gwelyau, ac am yr ansicrwydd ynglŷn â'r cynlluniau a'r amserlen ar gyfer yr ysbyty newydd. Mae'n hollbwysig fod Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymo yn gyhoeddus i gynlluniau pendant – ni allant wedyn daflu'r bai ar y llall. Mae gwaith y gweithgor sy'n ymchwilio i ddyfodol y gwasanaeth iechyd yn nalgylch Ysbyty Bronglais hefyd wedi cychwyn. Mi wn fod tystiolaeth gref yn mynd i gael ei gyflwyno ar yr angen i gadw gwasanaethau craidd fel mamolaeth a llawfeddygaeth yn lleol.

# Gair o Baris



Dyma ychydig o fy hanes tra'n byw ym Mharis. Er bod fy nghartref yn Rhydypennau, rydw i'n byw y rhan fwyaf o'r amser ym Mharis oherwydd gwaith fy nhad. Mae o'n gweithio yn ymyl y tŵr Eiffel.

Rydw i'n byw yn *arrondissement* rhif 13 (ardal Chinatown) sydd yn ne y ddinas sef i'r de i'r afon *Seine* (afon sydd yn pasio drwy Baris ac sydd yn rhannu'r ddinas yn ddwy). Yr *arrondissements* ydi'r ardaloedd ym Mharis. Mae yna 20 ohonyn nhw sydd yn creu siap fel cragen malwen.

Mae yna afon yn pasio yn ymyl fy nhŷ i hefyd o'r enw y *Bièvre*. Mae'r *Bièvre* wedi cael ei gorchuddio achos roedd hi'n cymryd gormod o le. Mae'r *Bièvre* yn enwog oherwydd y diwydiant creu tapestrïau. Roedd ei dŵr yn cael ei ddefnyddio ar gyfer llnau y tapestriau felly aeth ei dŵr yn fudr. Dyma reswm arall am ei gorchuddio.

Lleolir f'ysgol yn *arrondissement* 14 yn ardal *Montparnasse*. Mae'r ysgol reit o flaen mynwent *Montparnasse* yn nghysgod y tŵr *Montparnasse*. Mae mynwent *Montparnasse* yn wahanol i'r arfer achos bod yna gerfluniau a thai ar y beddi. Rydym yn pasio un tŷ-bedd bob wythnos o'r enw Dorsemaine Bernard sydd yn golygu efallai Bernard Cysgu-trwy'r-wythnos! Mae yna lot o bobl enwog wedi cael eu claddu yno. Dyma rai enghreifftiau:

Adamantios Korais – rhywun pwysig yn niwylliant a iaith Gwlad Groeg


Pencampwr gwyddbwyll o Rwsia

Sartre a Simone de Beauvoir – awduron enwog o Ffrainc

Charles Baudelaire – bardd enwog o Ffrainc

Rydw i'n mynd yno bob bore ar drên lein 6 y metro. Mae lein 6 yn mynd uwchben y ddaear a thros bont. Rwy'n gweld swyddfa papur newydd *Le Monde* bob bore. Wrth basio dros y *Seine* yn y dwyrain gwelir y tŵr Eiffel. Hoff le fy mrawd bach Iago ydi gorsaf y *Gare du Nord* achos bod yr *Eurostar* yn mynd oddi yno a dyna beth sydd yn mynd â ni yn ôl i Gymru.

**Harri Antoninis**




**y tincer**
ytincer@googlemail.com

# BOW STREET

**Oedfaon y Garn**
10.00 a 5.00

**Gweler hefyd**
**http://www.capelygarn.org/**
**Mawrth**
23 J.E. Wynne Davies
30 Aled Edwards

**Ebrill**
6 Noddfa Judith Morris
13 Adrian Williams
20 Oedfa'r Ofalaeth Pasg
27 John Tudno Williams

**Noddfa**
**Mawrth**
23 2.00 Gweinidog Cymundeb
30 5.00 Gweinidog

**Ebrill**
6 10.00 Oedfa Undebol yr Ofalaeth yn Noddfa Y Garn yn ymuno
13 2.00 Gweinidog
20 10.00 a 2.00 Oedfa Undebol Sul y Pasg ym Methel, Tal-y-bont
27 2.00 Gweinidog Cymundeb

## Llongyfarchiadau dwbl

Llongyfarchiadau dwbl i Dafydd Sion Rees, Brysgaga; yn ogystal a chael cyntaf gyda'i gôr yn Eisteddfod Ysgol Penweddig enillodd wobr am arweinydd gorau y gystadleuaeth.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Cerys Evans, 43 Maes Afallen, sydd wedi cael gradd mewn nyrsio ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant Caerfyrddin ac wedi cael swydd ar ward Iorwerth, YsbytyBron-glais.

## Clwb CIC

Roedd Capel Y Garn yn llawn bwrlwm ar y 27ain o Chwefror wrth i aelodau Clwb CIC fentro i aros lan trwy'r nos i gasglu arian tuag at elusen Ymchwil Cancr (elusen ddewis yr Ieuenctid).

Dechreuodd y noson am 8yh lle cawsom gyfle i chwarae lot o gêmau tîm, rhedeg o gwpas, chwarae ar y bwrdd pŵl a tennis fwrdd ac roedd un or ieuenctid wedi dod a consol gemau Wii i ni ei chwarae. Felly roedd digon i'n diddanu ni.

Am hanner nos cawsom gyfle i gael bwyd gyda'n gilydd. Fe wnaethom fwynhau'r toasties ham a caws a'r chocolate fountain gyda ffrwythau.

Rhwng 3yb a 6yb roeddem yn teimlo bod y cloc wedi stopio, yr oriau'n mynd yn araf ac roedd pawb yn dechrau blino, ond roedd pawb yn dda iawn yn annog ei gilydd i beidio cysgu. Fe aethom am dro sydyn rownd y maes parcio er mwyn helpu'r blinder, ac yna i basio'r oriau olaf fe wnaethom chwarae gêmau bwrdd a chardiau.

Roeddem i gyd yn falch i weld Fal Jenkins yn cyrraedd am 7 yb i wneud baps bacwn a chrempogau i ni. Hedfanodd yr awr olaf heibio, a chyn pen dim roedd yn amser mynd adref i gysgu!

Dwi mor falch o lwyddiant yr ieuenctid a gymerodd ran, a diolch yn fawr i bawb a ddaeth heibio yn ystod y nos i'n cefnogi. A chofiwch, mae yna ddal amser i noddi aelodau CIC.

Mae hi wedi bod yn fraint i fod yn rhan o CIC yn y Garn ac mae wedi bod yn wych i adeiladu perthynas gyda'r ieuenctid sy'n mynychu'r clwb. Mae gennym raglen newydd wedi ei drefnu gyda nifer o weithgareddau cyffrous ar gyfer y tymor nesaf megis helfa drysor, trip i Llain, noson gyda sumo suits, taith gerdded a llawer mwy.

Os hoffech mwy o fanylion cysylltwch gyda mi, Zoe Jones (Swyddog Menter Gobaith) ar 01970 611510/07584411524.

## Pen blwydd hapus

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Sian Powell, 27 Maes Ceiro ar ddathlu ei phen blwydd yn 50 ar 12 Mawrth.

## Sêl Pen Bwrdd Neuadd Rhydypennau

Bydd Neuadd Rhydypennau'n ail-ddechrau cynnal Sêl Pen Bwrdd ar ail ddydd Sadwrn o bob mis gan ddechrau ar fore Sadwrn, Ebrill 12fed. Bydd croeso i unrhyw un logi bwrdd am £5 i arddangos a gwerthu nwyddau. Caiff y byrddau eu gosod y tu allan neu dan do, yn y Neuadd, yn ôl y tywydd. Os am logi bwrdd dylid ffonio: 828032 neu 828772

## Capel y Garn

**Ffarwelio â Bryn Lloyd** - Yn ystod y mis diwethaf symudodd Mr Bryn Lloyd o Faes Ceiro i fyw yn ardal Caerdydd. Trist oedd gorfod ffarwelio ag aelod sydd wedi bod mor ffyddlon i'r capel ers bron i ddeugain mlynedd ac yn flaenor ymroddgar ers bron i ddeng mlynedd ar hugain. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu Bryn Lloyd yn cyflawni dwy swydd holl bwysig i'r capel, sef Goruchwyliwr yr Adeiladau ac Ysgrifennydd Ariannol. Bydd bwlch enfawr ar ei ôl.

Dymunwn y gorau iddo ef a'i fab Aled yn eu cartref newydd. Gobeithio y cânt eu dau flynyddoedd o ddedwyddwch yng nghwmni difyr yr wyrion, Mared a Rhydian, a'u rhieni, Nerys ac Ifer.





Gwerfyl Pierce Jones

## Y Gymdeithas Lenyddol

Gwerfyl Pierce Jones oedd y wraig wadd yng nghyfarfod mis Chwefror a'i dewis bwnc oedd "Byd Llên: pori yma ac acw". Cyflwynwyd hi gan Gadeirydd y gymdeithas, Gareth Wiliam Jones ac fe dreuliwyd awr ddifyr dros ben yn gwrando arni'n codi cwr ar ei gyrfa tra'n darllen eu detholiad o farddoniaeth a rhyddiaith, yn cynnwys gweithiau gan Gwyn Thomas, Nesta Wyn Jones, Islwyn Ffowc Elis, D F Marks, T H Parry-Williams, R S Thomas ac eraill.



Côr rhieni a phlant ysgol Sul Bow Street yn y Gwasanaeth Gŵyl Ddewi ar 2 Mawrth 2014.



Y Parchg Wyn Rhys Morris yn cyflwyno rhodd i Bryn ar ran Swyddogion y Garn ar ei ymadawiad i Gaerdydd.

### Y Chwiorydd

Catherine Young o Theatr Felin-fach ddaeth atom ym mis Mawrth. Swyddog Dawns yn y Gymuned yw teitl swydd Catherine. Mae ei gwaith bob dydd yn cynnwys dysgu dawns i bobl o bob oed - pobl hŷn, plant bach iawn a'u rhieni, a phobl dan wahanol fathau o anfanteision. Ar ôl dechrau gyda phawb yn tylino'n gilydd yn ysgafn darllenodd gerdd o waith Mererid Hopwood i ni, ac yna'n hannog yn garedig i feddwl am symudiadau fyddai'n mynegi rhai o'r geiriau i gerddoriaeth. Merched y Cyrion oedd wedi paratoi'r te.

### Gŵyl Ddewi

Ymunodd cynulleidfaoedd Noddfa a'r Garn ac eglwysi Gofalaeth y Garn mewn gwasanaeth Gŵyl Ddewi yn y Garn ar yr 2il o fis Mawrth. Gweinidog Noddfa, y Parch Richard Lewis, oedd wrth y llyw, a phlant Ysgol Sul Unedig y Noddfa a'r Garn, ynghyd â'u rhieni, a greodd naws Gŵyl Ddewi i ni yn y rhannau agoriadol. Ar ôl i'r plant a'u hathrawon ymadael â'r gynulleidfa cafwyd pregeth amserol gan Richard Lewis.

### Gradd Mesitr

Llongyfarchiadau i Manod Williams, 29 Tregerddan, ar ennill gradd Meistr mewn Gwyddor Da Byw ym Mhrifysgol Aberystwyth.

### Pen blwydd hapus

Pob dymuniad da i William Owen, Gerddi Gleision, ar ei ben blwydd yn 21ain, ddiwedd mis Mawrth.

### Dwy briodas aur

Llongyfarchiadau i ddau gwpl sydd yn dathlu priodas aur – dathlodd Gwyn a Brenda Jones, Glyn Teg, Y Lôn Groes dydd Gwener 14 Mawrth a bydd Jean ac Iwan Davies, Cnwc y Deintur, Maes y Garn, yn dathlu ar 28 Mwrth. Dymuniadau gorau i'r pedwar ohonynt.




## Cylch Meithrin Tal-y-bont

**Cynorthwy-ydd**

Dymuna Cylch Meithrin Tal-y-bont hysbysebu am Swydd Cynorthwy-ydd i weithio mewn awyrgylch hapus a bywiog.

Swydd o 12 awr yr wythnos yw hon ar foreau Llun i Iau o 9:00 tan 12.00.

Mi fydd cyflog i'w drafod yn ddibynnol ar brofiad a chymwysterau.

Yn ddelfrydol dylai'r ymgeisydd llwyddiannus fod wedi cwbwlhau y canlynol, sef NVQ lefel 3 ym maes Gofal Plant ac ymwybyddiaeth o'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn rhugl yn hanfodol.


Dymuna Pwyllgor Rheoli Cylch Meithrin Tal-y-bont benodi person brwdfrydig ac ymroddedig sy'n rhugl yn y Gymraeg a'r gallu i gydweithio'n dda gyda staff, rhieni ac aelodau'r pwyllgor.

Bydd angen sicrhad fod gan yr ymgeisydd wiriad GDG (DBS check) cyn iddynt fedru dechrau'r swydd.

Os oes diddordeb gennych yn y swydd cysylltwch â Catrin Mason am ffurflen gais ar cg_mason@yahoo.co.uk.

**Dyddiad Cau: 21/3/14**

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN



eich gwefan leol
www.trefeurig.org
your local website
newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

MYNACH HANDYMAN
Cynnal a Chadw Tŷ, Gardd, Siediau a Tŷ Gwydr, Golchi Patio
Rhoddir sylw i'r gwaith bach yna does byth amser gennych i orffen. Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
01974 261758
07792457816
mynachhandyman@yahoo.com

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

Gwaith Bricio
R+R
Adeiladau newydd,
Estyniadau,
Gwaith Carreg,
Patios
Rhod: 07815121238
Rich: 07709770473

# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor o dan lywyddiaeth y Cyng. Dewi James, nos Iau, 27 Chwefror yn Neuadd Rhydypennau. Datgelwyd bod Technoleg Taliesin yn bwrw ymlaen i greu Gwefan i'r Cyngor ac fel yr eglurwyd eisoes, bydd £500 yn dod o goffrau'r Cyngor Sir fel cymhorthdal. Ond ar y noson hon gwelwyd fod tro yng nghynffon haelioni y Cyngor Sir. Bydd yn orfodol yn awr i'r Gymuned ddarparu cofnodion yn Gymraeg a Saesneg ar y wefan, yn ogystal â chyflwyno Agenda mewn da bryd. Hefyd bydd angen datgelu manylion personol yr aelodau fel bod y cyhoedd yn medru cael gafael ynddynt ar amrantiad.

Ac nid dyna'r unig beth sydd wedi anfodloni aelodau'r Gymuned o du'r Cyngor Sir. Maen' am osod Banciau Poteli mewn pedair ardal yn y Gymuned, Clarach, Tregerddan, Maes Ceiro a Neuadd Rhydypennau. Mae'r ddau le olaf yn agos iawn i'w gilydd, onid gwell na fuasai gosod un ohonynt ym Mryn Castell. Hefyd does dim sicrwydd am hawl lleoliad y banciau hyd yma. Ond dyma'r ail dro cynffon yn y print mân. Bydd angen i rywun o'r Gymuned arolygu y banciau deirgwaith yr wythnos, clirio sbwriel a chadw'r lle yn daclus, ac os bydd i rywun cael damwain gyda gwydr toredig, ar y Gymuned y syrth y cyfrifoldeb. Anghofiwch nhw! oedd y farn gyffredinol, ond penderfynwyd cael rhagor o wybodaeth mwy pendant.

Hyn oll yn cadarnhau yr hyn ddywedodd y Cynghorydd Paul Hinge yn ei sylwadau ar ail strwythuro'r Cynghorau Sir, sef ei bod yn cledro mwy o waith cynnal a chadw bant i'r Cynghorau Cymuned ac i'r rheiny ddwyn y gost.

Daeth cais am gymhorthdal oddi wrth Bwyllgor Gofalaethau Capeli Gogledd Ceredigion at brosiect o greu ffilm yn adlewyrchu y Rhyfel Byd Cyntaf. Gan mai braidd yn annelwig yw'r manylion ar hyn o bryd, disgwylir am arweiniad mwy pendant gan y Gofalaethau wedi eu cyfarfod nesaf.

Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Paul Hinge. Dywedodd nad oedd y cais am fabwysiadu ystâd Maesafallen wedi ei gwblhau eto oherwydd bod un o'r goleuadau heb ei uwchraddio yn iawn ond gobeithir cwblhau y gwaith ym mhen yr wythnos. Mae tipyn o bridd ar ffordd y Dolau o amgylch Bryngwyn Canol ar hyn o bryd, ond gydag ychydig o dywydd sych ac amynedd, fe ddaw y wyneb yn lân eto. Yn dilyn cwynion am oryrru ar Rhiw Cwmcynfelyn, mae'r awdurdodau yn amheus am osod arwydd atal cyflymder yno oherwydd nad oes le i'r heddlu osod y cerbyd "Pwyllwch"! Gobeithir trefnu cyfarfod PACT yn Neuadd Rhydypennau ar 26 Mawrth.

Bydd y Cynghorydd Hinge yn gwneud ymholiadau ynglŷn â'r datblygiad newydd ar yr hen seidin gorsaf Bow Street. Yn ôl y caniatâd cynllunio gwreiddiol yr oedd y darn yma i'w guddio gan goed bytholwyrdd, neu fod y clawdd drain gwreiddiol i aros. Ar hyn o bryd mae'r lle yn hollol noeth.

Ychydig amser yn ôl penderfynwyd cyflwyno rhodd i Ysgol Rhydypennau ar gyfer cynllunio ramp gan fod angen symud cadair olwyn o gwmpas yr ysgol. Penderfynwyd holi i'r awdurdodau perthnasol beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd.

Dywedodd y Clerc fod nifer o filiau i'w talu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cynnwys bil y toiledau, sef £1,157. Gan fod tipyn o graffiti ar y waliau, gwnaed y sylw y gallai fod yn beth doeth i osod peiriant talu ar y drysau, byddai hyn yn rhyw fath o atalfa i'r drwgweithredwyr. Trafodir hyn gyda phwyllgor y Neuadd.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 27 Mawrth 2014.

## llun y mis

**Llun o gasgliad Iestyn Hughes, Maes-y-garn, Bow Street. Gellir gweld mwy o'i luniau ar ei wefan http://www.atgof.co/**



**Parêd Gŵyl Ddewi Aberystwyth**


**CRONFA GOFFA'R FONESIG GRACE JAMES**

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth fudiadau neu gymdeithasau'r henoed am gymhorthdal o'r gronfa uchod. Dylai'r gymdeithas fod o fewn ffiniau hen Gyngor Dosbarth Aberystwyth. Gellir cael ffurflenni cais oddi wrth yr ysgrifennydd a dylid eu dychwelyd cyn 31 Mawrth 2014.

Yr ysgrifennydd yw:
**Mary Jones,** Lleifior, 27 Glan Rheidol, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth
SY23 3GG –01970 624408

inc

Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau,cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.

Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion

13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

Gwesty'r Llew Du
Black Lion Hotel

Blwyddyn Newydd Dda
a phob hwyl yn 2014!

Gwnewch hi yn flwyddyn
i'w chofio . . .

Bwyd Da . . . Cwmni Da . . .
Talybont, Aberystwyth
01970 832 555
gwestyllewdu.com

Gwersi Piano i Blant
Ffon: 07581464666

Siop
SGIDIAU GWDIHW
8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
Gwasanaeth
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod,
Dip.Pod.Med.

# Colofn Mrs Jones

Yn ddiweddar rwyf wedi mwynhau gwylio ffilmiau James Bond yn bennaf am fy mod yn mwynhau dyfeisgarwch Q a sylweddolais ei bod hi yn bosibl creu rhestr o ddyfeisiadau y buaswn i wedi eu creu petawn i yn Q a dyma nhw.

Car nad oes angen ei yrru.Yr unig waith fyddai eistedd ynddo a dweud i le yr oeddech am fynd.Ac, wrth gwrs, byddai yn gar ellid ei droi yn awyren neu yn long yn ôl y gal. Ac fe fyddai yn rhoi sioc drydanol ysgafn i unrhyw un a fyddai unai yn ceisio ei ddwyn neu yn gwthio eu pram i'r ffordd a la mamau Aberystwyth

Clon ohonof fy hun y gallwn ei anfon i leoedd pan ydw i yn teimlo yn ddiog neu os oes gennyf fwy nag un lle y dylwn i fod ynddynt ar yr un pryd.

Robot gwaith tŷ. ..

Cyffur y gorfodid pob gwleidydd i'w gymryd a sicrhau geirwiredd, cyfiawnder, haelioni a synnwyr cyffredin - fe ddeuai tlodi a rhyfel ac anghyfiawnder i ben yn fuan iawn.

Dyfais a fyddai yn puro'r amgylchfyd o lygredd y gorffennol ac yn gofalu fod diwydiant y presennol yn lân a chynaliadwy.

Fe roedd creu rhestrau fel hyn yn hobi yn ein teulu ni. Dim ond un ddyfais yn unig a oedd yn mynd a bryd Gwynn, sef gwely a gynhwysai doiled a theledu, offer gwneud paned a silffoedd llyfrau y gellid hefyd ei droi yn gar fel y gellid mynd i rywle heb godi o'r gwely petai angen. Nid yw Gwynn yn ddyn diog o le yn y byd, ymateb yw hyn i duedd ein rhieni i gychwyn ar wyliau cyn codi cŵn Caer o gynnar a gyrru am oriau bwygilydd heb stopio yn unman.!Mi gofiaf hyd heddiw am fy mam yn gyrru o Lan Conwy i Launceston mewn un siwrne a gychwynnodd ymhell cyn y wawr a'r pryd o dafod a gafodd pawb ohonom am ruthro am doiledau y gwesty ar ôl inni gyrraedd. Un ofn oedd gan mam, sef ofni fod pobl yn meddwl ei bod wedi magu paganiaid a roedd hi yn ystyried ein stampede yn weithred baganaidd heb feddwl mai ei bai hi ei hun oedd o yn y lle cyntaf.Yr oedd hi ei hun yn ddynes a allai fynd heb na phaned na thoiled am yn hir iawn ac nid oedd ganddi bwt o amynedd efo meidrolion oedd yn hoffi teithio yn hamddenol o un lle i'r llall.

Hobi deuluol arall oedd creu teitlau ar gyfer llyfrau Harri Parri oherwydd ei fod yn arbenigo ar deitlau yn cynnwys elfennau go anhebyg i'w gilydd, a mae hon yn hobi sydd wedi parhau.Ffefryn fy nhad o'r teitlau hyn oedd 'Sos coch a sannau neilons' ond beth am 'Bwyd Cath a Batris Cloc'? Yr unig reol yw fod yn rhaid i chi greu'r teitl wrth siarad yn normal am bethau ond eich bod, wrth wneud hynny, yn cyfuno geiriau cwbl amherthnasol yn synhwyrol i greu darlun swrreal Ond mae o yn biti na fedraf gofio am beth oedd cyfaill i mi yn sôn pan greodd hi'r teitl 'Babis, Blwmars a Mangl'. Er mi gofiaf yr olwg o sioc ar ei hwyneb pan glywodd gorws o TEITL HARRI PARRI o'i chwmpas..mae'n siwr ei bod hi yn meddwl mai gair neis am seilam oedd mans!.



# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN



Cylch Meithrin

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Anne Davies, Maencrannog, a'r teulu, sydd wedi colli chwaer y mis diwethaf sef Mrs Gwenfyl Jones, Llanbedr Pont Steffan. Pob bendith iddynt yn eu hiraeth.

### Gwellhad buan

Wrth fynd i'r wasg 'roedd Mrs Brenda Evans, Exchange, newydd gael triniaeth llawfeddygol yn ysbyty Bron-glais. Hyderwn y caiff lwyr wellhad yn fuan, Cofion gorau ati.

### Prawf Gyrru

Da iawn ti Shaun Dryburgh, Maesmelindwr, ar basio dy brawf gyrru, ar yr ymgais gyntaf. Llongyfarchiadau, a phwyll piau!

### Anffawd

Erbyn hyn, da clywed fod Haf Evans, yn gwella o'i anffawd, o gau ei bys bach yn un o ddrysau yr ysgol. Gorfod iddi fynd i Ysbyty Treforus i arbed y bys a chael llawer o bwythau, a gellir ond dychmygu y boen ar y pryd, ond hyderwn y byddi yn chwarae y piano eto, yn fuan iawn. Dymuniadau gorau Haf.

### Eglwys Dewi Sant

Ar Nos Fawrth Ynyd, cynhaliwyd Noson Grempog yn Neuadd yr Eglwys. Cawsom grempogau hyfryd a blasus gan y cogyddion. Gwnaed hwy gan Lawrence a Jean Cock, Garth a Helen Hughes, a Gwynfor a Llinos Jones. I ddilyn cafwyd adloniant ardderchog gan Barti Cantre'r Gwaelod dan arweinyddiaeth Eleri Roberts yn cael ei gyflwyno gan yr arweinydd dawnus Glyn T Jones, Aberystwyth. Arweinydd amryddawn a phleserus. Yn ogystal, cafwyd adloniant hyfryd gan dalentau ifanc, Glesni Morris, Llanddeiniol, Harri Gwynn a Steffan Dafydd, dau frawd o Bonterwyd. Mae ganddynt ddyfodol disglair o'u blaenau. Daliwch ati. Hefyd, cynhaliwyd raffl ar y noson gyda llu o wobrau da. Braf iawn oedd gweld cynulleidfa gref yn bresennol, a phawb wedi mwynhau. Diolch i bawb a gyfrannodd, a hynny mewn gwahanol ffyrdd. Cafwyd noson lwyddiannus dros ben. Cofiwch am yr Helfa Wyau Pasg a gynhelir ar ddydd Sadwrn, 19 Ebrill am 1.30 o'r gloch. Croeso cynnes.





Eglwys Dewi Sant

### Croeso

Croeso yn ôl i Dr Robin Young, Islwyn, sydd wedi bod ffwrdd yn Norwy, yn ymweld â'i deulu. Mae'r tywydd yma wedi bod yn anarferol o wlyb y gaeaf hwn, fel y gwyddoch. Yn ôl Dr Young, roedd y tywydd yno hefyd yn groes i'r arfer, gan mai ychydig iawn o eira a gawsant eleni. Serch hynny mae wedi gweld mwy o'r haul yma ers dychwelyd, nag yn ystod y gaeaf yn Norwy.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Rhianydd Morgan, Forge Cottage, Tynllidiart, ar farwolaeth ei brawd yn Llanddewibrefi ddiwedd mis Chwefror.

### Cylch Meithrin Pen-llwyn

Mae Cylch Meithrin Pen-llwyn wedi cael wythnos brysur iawn ar ôl hanner tymor. Mae'r Cylch ar agor tan 1.00 y prynhawn nawr, ac mae'r plant wedi bod yn gyffrous iawn am eu bod nhw'n cael bwyta cinio yn y Cylch.

Rydym wedi dathlu Gŵyl Ddewi, Diwrnod crempog a hefyd Diwrnod y Llyfr. Dyma ni yn ein gwisgoedd lliwgar, sawl cymeriad gwahanol!



Cylch Meithrin

### Clwb 200

*Tachwedd*

| | | |
|---|---|---|
| 1af | 101 | Mike Ingram, Llygad-y - Glyn, Goginan |
| 2il | 121 | Sharon Wheeler, 12 Fifth Ave, Penparcau |
| 3ydd | 51 | Sion Raeburn, c/o Ceunant, Pisgah |
| 4ydd | 147 | Elin Davies, Awelon, Llangurig, Llanidloes |

*Rhagfyr*

| | | |
|---|---|---|
| 1af | 184 | Elan Dafydd, Brynceiro, Ponterwyd |
| 2il | 139 | Hannah Jones, Aberceiro, Ponterwyd |
| 3ydd | 116 | Mrs Lewis, 33 Sgwâr Alban, Aberaeron |
| 4ydd | 188 | Sara Jenkins, Tyncastell, Pontarfynach |

Ionawr

| | | |
|---|---|---|
| 1af | 150 | Sandra Bennet Evans, Eisteddfa Fach, Ponterwyd |
| 2il | 136 | Norman Michelle, c/o George Burrow, Ponterwyd |
| 3ydd | 188 | Sara Jenkins, Tyncastell, Pontarfynach |
| 4ydd | 106 | Alice Briggs, Tŷ Capel, Aber-ffrwd |

### Dymuniadau gorau

Clywyd fod Sid Clench, Poplars, wedi mynd i Ysbyty Llwynhelyg, Hwlffordd, i gael triniaeth a hynny ar drothwy ei ben blwydd yn 80 ar Fawrth 11. Dymuniadau gorau iddo a phen blwydd hapus.

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

DIGWYDDIADAU MORLAN:

• Iesu, yr aberth sy'n maddau (7.30, 12 & 26 Mawrth, 9 Ebrill). Cwrs dan arweiniad Enid Morgan. Trefnir gan y grŵp C21 lleol.

• Rosa (7.30, 16-17 Mawrth). Cwmni Morlan yn cyflwyno drama gan John Roberts am Rosa Parks. Tocynnau (£3) ar werth nawr!

• Rhestr Llyfr y Flwyddyn Answyddogol (7.30, 24 Mawrth). Catrin Beard ac Elwyn Jones yn dewis ac yn trafod eu hoff llyfrau. Mynediad: £3.

Manylion llawn ar wefan Morlan:
www.morlan.org.uk
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth
SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

y tincer

## MADOG, DEWI A CEFN-LLWYD

**Oedfaon Madog**
2.00
**Mawrth**
23 J.E. Wynne Davies
30 Aled Edwards

**Ebrill**
6
13 Adrian Williams
20 Oedfa'r Ofalaeth Pasg
27 John Tudno Williams

### Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Eirlys a Tony Reeve, Rickmansworth, Llundain (gynt o Ysgubor Newydd, Capel Madog) a fydd yn dathlu eu Priodas Aur ar yr 28ain o Fawrth. Mae Eirlys yn edrych ymlaen at gael *Y Tincer* bob mis ers blynyddoedd lawer. Pob dymuniad da, a mwynhewch y dathlu yn y Dorchester

### Cydymdeimlad

Trist oedd clywed am farwolaeth Mr Tomi Davies, Tyncwm, Capel Dewi ar ddydd Gŵyl Ddewi. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Elwyna a'r teulu yn eu profedigaeth lem o golli priod, tad a thad-cu annwyl. Bu gofal Elwyna yn fawr amdano yn ystod ei salwch a chafodd Tomi ei ddymuniad i gael aros yn ei gartref tan y diwedd. Cydymdeimlwn hefyd â theulu Gellinebwen a Rhos-goch ar golli cefnder. Cydymdeimlwn â Nest Jones, Felin Hen, sydd wedi colli ewythr – Mr Bennett Jenkins, Ynys Capel.

### Prawf gyrru

Llongyfarchiadau i Hanna Meredydd ar basio ei phrawf gyrru y tro cyntaf ar Fawrth 4ydd.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Catherine a Dilwyn Thomas, a'r teulu, Brynheulog, ar farwolaeth modryb Catherine - Mrs Eirlys Jones, Treflys, Tregaron. Bu'n byw gyda Dilwyn a Catherine am beth amser cyn symud i Plas y Cwm.

Cydymdeimlwn â Shan Lawson, Annedd Lon, Capel Dewi, ar golli ei thad – Geraint James, Llanbadarn, yn ddiweddar.

### Pen blwydd hapus

Pen blwydd hapus hwyr i Gwyneth Pritchard, Tŷ Gwyn a ddathlodd ei phen blwydd yn 70 ar 6 Mawrth.

### Pen blwydd Tegwyn

Na – tydi Tegwyn Rhos-goch ddim yn cael mwy nac un pen blwydd!! Daeth y penillion yma i law yn rhy hwyr i rifyn Chwefror.

**I Tegwyn ar ddathlu ei gant (namyn deg ar hugain)**

Dygwch i Geredigion, ategwch
I Tegwyn eich rhoddion;
Ac i'r hybarch, cyfarchion
Yn llu estynwch yn llon.

Yn Rhos Goch erys y gŵr; i'w deulu
A'i dylwyth mae'n arwr.
Un â dawn ac sydd yn dŵr,
Un i'w harwain, cynghorwr.

I Aldwyth am byth y bydd yn heulwen
Ar eu haelwyd ddedwydd;
Yn ŵr da, bachan drwy'r dydd,
Un agos, beunos, beunydd.

Mawr ei serch dros ei ferched nhw a'u gwŷr
A'r teg wyrion; tybed
Oes sicrach, haelach waled
Yn y wlad pan fo ar led?

Y mae hud Capel Madog a hedrwm
Llyn Syfydrin dalog
A rhuddin bro eithinog
Yn glyd dros ei war yn glog.


Difyr fugeilio defaid; rheoli
Treialon yn ddibaid;
(Godro weithiau sawl gwydraid).
Rhoi oes o ble dros ei Blaid.

Yn flaenor gyda'r gorau, câr ei lwyth
Câr ei wlad a'i chwedlau,
Ei chaneuon a'i thonau
A rhoi hwb iddynt barhau.

**Aled Gwyn**

# Llyfrau

**Mari Morgan**
*Cerdded hen lwybrau*
Cymdeithas Hanes Amaethyddiaeth Ceredigion £5





Yn Chwefror cyhoeddwyd ail lyfryn yn y gyfres gan Gymdeithas Hanes Amaethyddiaeth Ceredigion. Casgliad o ysgrifau a cherddi yw hon gan Mari Morgan – sydd yn wybyddus i gynulleidfaoedd Eisteddfod Penrhyn-coch fel cystadleuydd ffyddlon ac enillydd y gadair yn 1991. Ffrwyth cystadleuaeth a gynhaliwyd i ddathlu 25mlwyddiant Cymdeithas Hanes Amaethyddiaeth Ceredigion (sefydlwyd ar 28 Hydref 1987) yw'r ddau lyfryn. Cyhoeddwyd Yr un cyntaf flwyddyn yn ôl Hanes amaethyddiaeth a chadwraeth Gogledd Ceredigion gan Gwilym Jenkins, Tal-y-bont.
Gellir archebu copïau trwy gysylltu â Ysgrifennydd y Gymdeithas – Tudor Jones, Dolwyre, Llanrhystud, Ceredigion, SY23 5AA

(Ffôn: 01974 202559)

**Lleucu Roberts** *Oswald*
Y Lolfa £1.00 (Stori Sydyn)

Anodd yw dychmygu byd heb hiwmor – a diolch am hynny. Mae chwerthin fel chwa o awyr iach yn y gwanwyn, a gall gwên godi calon. Rhaid cydnabod mai tipyn o gamp yw ceisio pwyso a mesur yr hyn sy'n peri i rhywun wenu neu chwerthin. Gall gair, gweithred a sefyllfa esgor ar ddoniolwch, ond tasg amhosibl yw cofnodi cynhwysion digrifwch ar bapur ar ffurf rysáit.




Edwino wnaeth y cyfle i ddod ynghyd er mwyn clebran ac adrodd storïau yn ein cymunedau yn y blynyddoedd diweddar, a chiliodd y cymeriadau ffraeth o'n cymdeithas.
Pleser, felly, oedd cwrdd ag Oswald Myrddin Jones yn un o gyfrolau Stori Sydyn 2014. Cafodd Lleucu Roberts afael ar nifer o ddefnyddiau digrifwch a llwyddodd i'w trafod yn ddeheuig, gan greu cymeriad credadwy.
Amlygir ei chrefft o drin geiriau yn gyson tra defnyddir cymhariaeth a dihareb yn gelfydd. Lluniodd olygfeydd cofiadwy a phortreadau cryno. Nid oes angen llawer o ddychymyg i weld Oswald yn y gegin yn blasu'r bwydydd o ben draw'r byd ond a ddaeth mewn gwirionedd o fwyty Indiaidd cyfagos. Mae ei ymateb i'r danteithion dieithr a'r sgwrs ag Amy yn cymell gwên. Cynildeb yr hiwmor yn aml yw'r allwedd i lwyddiant y gyfrol.
Awgrymir natur ac ymddygiad Oswald gan gyfeiriadau digon di-nôd ar un olwg ond cyfeiriadau sy'n portreadu'r cymeriad i'r dim. Meddyliaf yn arbennig am ei ymdrech i blygu ei gôt ar y trên, y gofal wrth fesur faint o siwgwr y mae'n ei roi yn ei de, a'r ffaith ei fod yn ddyn un siwmper. Mae dawn Lleucu Roberts i sylwi ar y manion hyn yn fodd i'r darllenydd ddod i adnabod Oswald yn well.
Plethwyd y digri a'r difri er mwyn trafod gwirioneddau am gyfrinachau ac am bethau pwysig bywyd, a chyflwyno ambell gyd-ddigwyddiad anesboniadwy. Crybwyllir bod gan Oswald wersi i'w dysgu. Hyderaf y daw cyfle eto i gwrdd â'r cymeriad o Abertawe ag inc yn ei waed. Gall Oswald brofi'n olynydd teilwng i gymeriadau cofiadwy a luniwyd gan awduron megis Harri Parri a Wil Sam.
**Trefor Jones**

Adolygiad oddi ar www.gwales.com, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru.

# Colofn Enwau Lleol

## Pantyrebolion

Tybed faint o ddarllenwyr y Tincer sy'n gyfarwydd â'r enw *Pantyrebolion* neu *Bant Rhydyrebolion*. Dyma'r hen enw ar y cyntaf o'r llynnoedd y byddwch yn eu pasio wrth deithio ar y ffordd gefn o Benrhyn-coch i Bonterwyd. Yn anffodus, mae'n prysur gael ei ddisodli gan yr enw diweddar, diddychymyg, *Pen Dam*.

Derbyniodd ei enw oddi wrth luest sydd â'i hadfeilion yn guddiedig islaw'r briffordd ar lan ogleddol y llyn, yn agos at y troad am Gwmsymlog.



**Map yr Arolwg Ordnans (1837) Great Britain Historical GIS Project, University of Portsmouth**

Ceir cofnod o fodolaeth lluest *Pantyrebolion* mewn dogfennau a mapiau o'r unfed ganrif ar bymtheg ymlaen. Cae ar gyfer pori sy'n gorwedd islaw'r lluest ar y Map Degwm yn yr 1840au, ond ymddengys i lyn gael ei gronni ar y safle yn gynnar yn yr 1850au er mwyn cyflenwi dŵr ar gyfer gwaith mwyn Cwmsymlog.

*Pantyrebolion* yw ffurf yr enw bron yn ddieithriad yn y dyddiau cynnar, ond erbyn cyhoeddi map chwe modfedd yr Arolwg Ordnans yn 1891, ychwanegwyd *rhyd* at yr enw i roi *Pant Rhydyrebolion*. (Dyma'r ffurf rwyf i'n gyfarwydd â hi ar lafar mewn gwirionedd.) Dengys map yr Arolwg Ordnans yn 1837, fodd bynnag, bod y lluest wedi ei lleoli ger tarddle un o ganghennau uchaf afon Melindwr, ond gan na ddisgwylid gweld *rhyd* mewn lleoliad o'r fath, tybed a yw'r ffurf honno yn wallus?

Erbyn yr 1980au cofnodir yr enw *Pen Dam* ar y llyn ym mapiau'r Arolwg Ordnans, a gresyn mawr am hynny.

Felly, beth am fynd ati i adfer y defnydd o'r hen enw? Mae'n dipyn o lond ceg, ond mae'n enw hynod o dlws, ac yn rhan o'n hetifeddiaeth!
**Angharad Fychan**

Paratowyd dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org



Adfeilion lluest Pantyrebolion ar lan y llyn

# Ateb gwreiddiol i atal llifogydd

Mae gwyddonwyr yn Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) ym Mhrifysgol Aberystwyth yn gweithio gyda phartneriaid yn Rothamsted Research North Wyke yn Nyfnaint i ddatblygu glaswelltydd newydd a fydd yn galluogi priddoedd glaswelltir i ddal mwy o ddŵr glaw, a fydd yn lleihau'r risg o lifogydd i lawr yr afon.

Mae prosiect LINK hwn o'r enw SUREROOT, a fydd yn para 5 mlynedd, ac yn werth £2.5 miliwn, yn cael ei ariannu gan y BBSRC (Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol), gydag arian cyfatebol gan ystod o bartneriaid diwydiannol ar draws y sbectrwm cynhyrchu bwyd, gan gynnwys cwmni hadau, cwmnïau cig, dofednod a llaeth, a chwmni manwerthu mawr.

Mae ardaloedd mawr o'r Deyrnas Gyfunol dan fygythiad parhaus ac eang o gael llifogydd sy'n niweidio cartrefi, ac yn achosi colledion sylweddol i economi'r DG ac i gynhyrchu amaethyddol (ee. amcangyfrifir tua £600m o golledion yn 2012). Glastiroedd ucheldir yw llawer o ddalgylchoedd ein hafonydd, a'r rheini, yn bennaf yn ardaloedd gwlypaf y DG.

Pe bai modd lleihau cyfraddau'r dŵr sydd yn rhedeg oddi ar y tir a dal glaw yn fwy effeithiol mewn priddoedd glaswelltir, fe all effeithiau gwaethaf glaw trwm i lawr yr afon gael eu lleihau.


Dr Mike Humphreys

Mae prosiect SUREROOT yn adeiladu ar sylfaen ymchwil cynharach a ariannwyd gan y BBSRC a gyhoeddwyd y llynedd yn *Nature Journal Scientific Reports* (Adroddiadau Gwyddonol SREP -12 - 03690.3d) a adroddodd fod glaswelltydd croesfrid a elwir yn festulolium ac a ddatblygwyd yn wreiddiol ar gyfer amaethyddiaeth da byw, hefyd yn meddu ar briodweddau cudd tanddaearol nad oeddynt yn hysbys cyn hyn.

Dywedodd Dr Mike Humphreys, sydd yn arwain y prosiect yn IBERS,

"Mae *festulolium*, a ddiffinnir fel croesiad naturiol rhwng rhywogaethau rhygwellt a pheiswellt, yn laswellt pwysig ar gyfer y dyfodol. Dyma'r ffordd ymlaen ar gyfer amaethu da byw mewn modd cynaliadwy.

"Mae'r grŵp planhigion *festulolium* yn amrywio'n eang yn eu priodweddau, ond mae IBERS wedi datblygu opsiynau sy'n darparu planhigion sy'n fwy gwydn yn wyneb effeithiau newid yn yr hinsawdd ac yn fwy o effeithlon o ran defnyddio dŵr a maetholion, ynghyd â nifer o enghreifftiau o'u defnyddioldeb o safbwynt amgylcheddol. Mae eu systemau gwreiddiau mawr sydd wedi datblygu'n dda yn helpu i liniaru ar lifogydd, yn lleihau erydu a chywasgu pridd, ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer dal a storio meintiau sylweddol o garbon yn ddwfn mewn priddoedd."

Mae'r rhyngweithiadau rhwng y gwreiddiau â'r pridd yn newid strwythur y pridd, gan arwain at fwy o ddŵr yn cael ei ddal, gyda gostyngiad hirdymor a sylweddol, sef 51%, mewn glaw yn rhedeg oddi ar y tir o'i gymharu â glaswelltydd cyfatebol a oedd yn tyfu wrth ei ochr ac sy'n cael eu defnyddio yn helaeth ar hyn o bryd ledled y DG.

Bydd prosiect SUREROOT yn asesu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y rhain a glaswelltydd newydd eraill, o safbwynt eu cynhyrchu'n amaethyddol o dan amrywiaeth o wahanol systemau rheoli da byw, ac o safbwynt eu priodweddau lliniaru llifogydd mewn gwahanol leoliadau yn y DG ac ar wahanol raddfeydd.

Bydd newidiadau'n cael eu gwneud i adeiladwaith gwreiddiau glaswelltydd a meillion ac i'w patrymau twf, a bydd eu heffaith ar strwythur y pridd a hydroleg pe baent yn cael eu tyfu ar raddfa fawr yn cael ei hasesu.

Os yw'r canfyddiadau cadarnhaol cychwynnol yn cael eu hatgynhyrchu ar raddfa fawr, mae hyn yn awgrymu cam sylweddol ymlaen o ran lleihau llifogydd.

Mae'r mathau o laswellt a meillion sydd yn cael eu bridio yn IBERS yn cael eu datblygu yn fwyfwy ar gyfer eu priodweddau cyfannol sy'n anelu at ddiogelu cynhyrchu amaethyddol ar adeg o newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â darparu gwasanaeth ychwanegol i ecosystemau. Bydd angen dulliau amaethyddol sy'n rhoi ystyriaeth i'r hinsawdd er mwyn manteisio'n llawn ar y datblygiadau newydd hyn.

Mae gwaith arloesol wedi datgelu priodweddau tebyg mewn meillion a bydd y rhain hefyd yn cael eu hymchwilio yn annibynnol ac fel cymysgeddau gyda rhygwellt a festulolium.

Er mwyn cyflawni ei amcanion mi fydd prosiect SUREROOT yn defnyddio, am y tro cyntaf, Cyfleusterau Ffenoteipio Gallu Cenedlaethol newydd o'r radd flaenaf a ariennir gan y BBSRC, sef Canolfan Genedlaethol Ffenomeg Planhigion yn IBERS, Prifysgol Aberystwyth, a Llwyfan Fferm Gogledd Wyke yn Rothamsted Research yn Nyfnaint.

# Ysgol Penrhyn-coch



### Galeri

Fel rhan o waith y tymor, cynhaliwyd noson arbennig yn y Llyfgrell Genedlaethol ar y cyd â Ysgol Pen-llwyn. Yn ystod y tymor, mae'r ddwy ysgol wedi bod yn cydweithio ar thema "Yr Oriel. Yn ystod yr hanner tymor, bu'r disgyblion yn ymchwilio i gyfryngau amrywiol ac yn trin a thrafod gwaith artistiaid amrywiol. Cafwyd cyfle i arbrofi a chyfryngau megis ffotograffiaeth, peintio ayyb. Uchafbwynt y prosiect oedd cynnal Oriel i arddangos y lluniau. Trwy garedigrwydd Y Llyfrgell Genedlaethol ac yn benodol Rhodri Morgan yn yr Adran Addysg, cynhaliwyd ein harddangosfa yn y Llyfrgell. Ar y noson, daeth criw anhygoel o rieni a ffrindiau Ysgolion Penrhyn-Coch a Phen-llwyn i weld gwaith y disgyblion. Cafwyd cyfle hefyd i gael lluniaeth ac i brynu gwaith y disgyblion. Croesawyd ein Haelod Seneddol, Mr Mark Williams i'r noson ynghyd â'i deulu. Diolch yn fawr i bawb fu yn rhan o'r noson ac i Rhodri Morgan am yr holl gefnogaeth a gafwyd. Gobeithiwn weld nosweithiau tebyg yn cael eu cynnal ar y cyd yn fuan iawn.

### Gwasanaeth

Croesawyd Y Parchg Judith Morris i mewn i'r ysgol yn ddiweddar. Bu yn sgwrsio ac yn annerch y disgyblion. Diolch iddi am ddod atom.

### Myrddin ap Dafydd

Fel rhan o Ddathliadau Diwrnod y Llyfr, gwelwyd y disgyblion yn gwisgo i fyny fel cymeriadau o lyfrau. Cafwyd ymweliad arbennig yn ystod y prynhawn gan y Prifardd Myrddin ap Dafydd. Yn ystod y sesiwn, bu'n sgwrsio gyda'r disgyblion am ei farddoniaeth ac yn darllen pytiau iddynt. Diolch i Delyth Huws am gynnig y cyfle iddo ddod atom.

### Gwylio Cyflymder

Braf oedd croesawu yr Heddlu i'r ysgol ar ddau achlysur yn ddiweddar. Buont wrthi yn cydweithio gyda chriw o ddisgyblion yn monitro cyflymder ceir yn pasio'r ysgol. Wrth i ambell i gerbyd basio ar gyflymdra dros 30 mya, bu'n rhaid iddynt wynebu cwestiynau y disgyblion!! Gobeithio yn awr y bydd cerbydau yn cadw at y cyflymdra yn y boreau.

### Storm

Yn dilyn y storm enfawr ddiweddar, gwelwyd newid mawr yn nhu blaen yr ysgol. Yn ystod y storm, chwythwyd un o'r coed pîn uchel i lawr gan daro'r goeden arall. Canlyniad hyn i gyd oedd gorfod ei thynnu i lawr. Erbyn hyn, nid oes coed ar flaen yr ysgol. Trueni am hyn i gyd ond trwy lwc ni anafwyd unrhyw un yn ystod y storm. Diolch yn fawr iawn i aelodau o Gymuned Penrhyn-coch a ddaeth atom ar noson y storm ynghyd â'r bore canlynol i glirio'r goeden. Byddwn yn awr yn mynd ati i blannu coed newydd.

### Celf a chrefft

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar ennill yng nghystadlaethau Celf a Chrefft yr Urdd. Bydd y rhai gafodd y wobr gyntaf yn mynd ymlaen i'r Genedlaethol.

**1af**
Sian Jenkins – Dylunio a Thechnoleg
Sian Jenkins ac Arwen Exley – Arteffact ailgylchu
Arwen Exley- gemwaith
Gwenan Jenkins – Dylunio a Thechnoleg
Charlotte Ralphs – Gwehyddu
**2il**
Sian Jenkins – print monocorom
**3ydd**
Sian Jenkins – print lliw
Sian Jenkins – cyfres o brintiau lliw
Gwenan Jenkins - ffotograffiaeth





Arddangosfa o luniau Ysgolion Penrhyn-coch a Phen-llwyn yn y Llyfrgell Genedlaethol

# Ysgol Craig yr Wylfa

### Canu gyda Peter Karrie

Yn ystod mis Chwefror derbyniodd yr ysgol neges ar y peiriant ateb. Doedd y neges ddim yn glir iawn ac roedd hi'n anodd deall enw'r person. Peter Terry? Peter Parry? Doedd neb yn siŵr, ond o wrando'n fwy astud fe ddeallwyd mai llais Peter Karrie, y canwr byd enwog oedd yno yn gofyn i blant yr ysgol berfformio gydag ef mewn cyngerdd yn Neuadd Gymunedol y Borth fel rhan o'i daith yn perfformio mewn neuaddau bychan. Roedd hi'n dipyn o sioc ac yn syndod i ni yn yr ysgol fod rhywun â blynyddoedd o brofiad o weithio ar gynyrchiadau fel Phantom of the Opera yn y West End yn Llundain eisiau canu gyda ni yn y Borth! Ond gwir oedd y peth. Daeth atom am ymarfer un prynhawn dydd Gwener ac yna ar nos Sadwrn, 15 o Chwefror cynhaliwyd cyngerdd gwych gyda phobl o bell ac agos yn dod i weld y perfformiwr dawnus. Canodd nifer o glasuron enwog ac roedd ei berfformiad o ganeuon 'Phantom' a 'Les Mis' yn fythgofiadwy. Gydag ef yn canu yr oedd Caryl Glyn o Aberaeron fel artist gwadd ac fe ganwyd sawl cân amrywiol ganddi ac fe blesiwyd pawb gyda'u deuawdau egnïol hefyd. Y cyfeilydd ar y noson oedd Nigel Hart.

Ond sêr y sioe heb amheuaeth oedd plant Ysgol Craig yr Wylfa. Roedden nhw wrth eu boddau'n canu Franz o Wlad Awstria i'r gynulleidfa ac fe gawson nhw'r cyfle o gael canu 'Joseph' gyda Peter Karrie hefyd.

Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr iawn i Gymdeithas Rhieni, Ffrindiau ac Athrawon yr ysgol am drefnu'r noson ac am y lluniaeth hefyd.



### Gŵyl Ddewi

I ddathlu Gŵyl Ddewi eleni aeth plant Ysgol Craig yr Wylfa i Neuadd Gymunedol y Borth i roi cyngerdd i henoed yr ardal. Cafwyd sawl eitem amrywiol gan gynnwys eitemau lleisiol ac offerynnol ac roedd hi'n gyfle i Harvey a'r dawnswyr disgo gael ymarfer cyhoeddus cyn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn nes ymlaen ym mis Mawrth. Diolch yn fawr iawn am y croeso twymgalon ac am y lluniaeth blasus. Diolch yn fawr iawn i'r staff am hyfforddi ac i Mrs Falyri Jenkins am bob cymorth. Arhosodd y plant yn y neuadd i roi cyngerdd wedyn i'r rhieni ac roedd hi'n hyfryd gallu gorffen y dydd drwy flasu cawl blasus Wendy. Diolch i bawb am gefnogi.


## BLAS MAWRTH GAN EICH PLAS LLEOL

### PASTAI BUGAIL NANTEOS

Mewn llyfrau coginio cynnar roedd y pryd yma yn ffordd o wneud pryd arall gyda chig rhost dros ben. Weithiau byddai'r tatws stwnsh yn cael ei roi ar hyd y gwaelod yn ogystal ag ar y top!
Mwynhewch! Nigel - Chef Patron

### Cynhwysion

50g toddion (dripin) cig eidion
1 winwnsyn mawr a 1 genhinen fawr wedi ei thorri'n fân
2 lwy fawr o olew olewydd
900g o friwgig cig oen
2 lwy fawr o flawd plaen
4 deilen llawryf
4 sbrigyn o deim ffres
2 lwy de o rinflas brwyniad
2 din o domatos wedi'u malu
4 lwy de o saws Caerwrangon
450ml o stoc cyw iar neu gig oen
Halen a phupur du wedi eu falu

*Ar gyfer y tatws stwnsh*

700g o datws
55ml o laeth
75g o fenyn
1 melynwy wŷ

### Dull

Poethwch y popty i 400F.
Poethwch doddion y cig eidon mewn dysgl gaserol fawr.
Ychwanegwch y winwnsyn a'r cennin a'u coginio am 5 munud.
Poethwch yr olew mewn padell ffrio fawr, ychwanegwch y briwgig a'i goginio nes bydd yn frown.
Trowch y winwns a'r cennin, ac ychwanegwch y blawd (sy'n tewhau'r cymysg). Cymhysgwch nhw'n dda, ac yna ychwanegwch y dail llawryf, y teim, a'r rhinflas brwyniad.
Cymysgwch y tomatos, y stoc a'r saws Caerwrangon.
Ychwanegwch y briwgig at y ddysgyl gaserol ac yna arllwyswch y cymysgedd stoc i mewn i'r badell ffrio er mwyn crafu'r holl friwgig oddi arno cyn ei ychwanegu eto at y cymysgedd yn y ddysgl gaserol.
Codwch y cymysgedd i'r berw, ychwanegwch halen a phupur a'i fudferwi am tua 45 munud.
Ar gyfer y tatws stwnsh, berwch y tatws ac yna eu disbyddu cyn eu rhoi mewn powlen lân.
Ychwanegwch y llaeth, y menyn a'r melynwy a stwnsiwch y cyfan gyda'i gilydd nes eu bod yn llyfn.
Ychwanegwch halen a phupur du os dymunwch. Rhowch y stwnsh tatws ar ben y cig yn esmwyth.
Pobwch yn y popty nes bydd yr wyneb yn felyn/frown ac yn byrlymu (tua 20 munud).





# Plas Nanteos

Taith a Phaned

Dewch i weld beth sydd mor arbennig am Blas Nanteos. Dewch am daith sydd yn sôn am hanes y plasty godidog ac ymweld â'r ystafelloedd moethus, unrhyw brynhawn o'r wythnos. Mwynhewch te prynhawn sydd yn cynnwys brechdanau, sgon jam a hufen, barabrith, cacennau a bisgedi, wedi eu pobi yn ffrês ar eich cyfer.

**Mae'r daith a phaned yma ar gael i unigolion a grwpiau, ac os oes deg person neu fwy cewch 10% oddi ar y bil os soniwch am yr hysbyseb yma.**

Cinio Dydd Sul

Achlysur arbennig, cwrdd â ffrindiau, teulu neu eisiau mwynhau cinio dydd Sul safonol heb y gwaith paratoi a'r holl lestri budur? Ymlaciwch neu archwiliwch yr ardd a'r goedwig eang o'i gwmpas cyn mwynhau eich cinio. Mae'r fwydlen yn newid yn wythnosol, ond mae yna bob amser asen o gig eidion, sy'n cael ei dorri wrth y bwrdd yn ogystal ag opsiwn llysieuol a physgodyn y diwrnod. Mae ein cinio tri chwrs yn cael ei weini bob dydd Sul rhwng, 12yp a 2yp.

**Am fwy o wybodaeth ymwelwch â'n safle we, ac wrth gwrs, cynghorwn eich bod yn cadw bwrdd o flaen llaw.**

Nanteos, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 4LU t:01970 600522

nanteos.com

# Ysgol Pen-llwyn

### Arddangosfa yn y Llyfrgell Genedlaethol

Bu dosbarth 2 yn brysur yn ddiweddar. Yn ystod hanner cyntaf y tymor buont yn astudio thema “Yr Oriel”. Bu’r disgyblion yn gwneud llawer o waith ar y thema. I gychwyn y thema fe ymwelom â’r Llyfrgell Genedlaethol mwyn gweld Oriel go iawn. Roedd y plant wedi mwynhau gweld lluniau Kyffin Williams, Turner ag ati. Buon yn ysgrifennu ac astudio sawl agwedd o waith arlunwyr enwog a lleol.

Uchafbwynt y thema oedd creu a chynnal arddangosfa go arbennig yn y Llyfrgell Genedlaethol ar y cyd gyda Ysgol Penrhyn-coch. Bu’r plant yn brysur yn efelychu gwaith Andy Warhol, Lizzie Spikes a ffotograffiaeth. Roedd y disgyblion wedi gweithio yn galed er mwyn creu gwaith o safon uchel iawn. Roedd arddangos y gwaith yn y llyfrgell yn rhoi urddas haeddiannol i’r gwaith.

Yn ystod y noson bu’r rhieni yn bidio yn erbyn ei gilydd er mwyn prynu’r gwaith. Roedd rhai o’r lluniau wedi codi arian sylweddol wrth i rai rhieni a ffrindiau’r ysgol frwydro yn erbyn ei gilydd i ennill y llun. Roedd y profiad yn un gwerth chweil dros ben.

### Lizzie Spikes

Tra’n astudio gwaith arlunwyr, bu disgyblion dosbarth 2 yn ffodus o dderbyn ymwelydd arbennig i’r ysgol, sef Lizzie Spikes. Mae Lizzie yn enwog yn lleol am ei gwaith Celf ar ddarnau o Froc Môr. Bu’r disgyblion yn chwilio darnau o Froc Môr er mwyn creu eu darnau eu hun. Maent yn hoff iawn o luniau Lizzie, ac roedd ei ymweliad yn hyfryd er mwyn i’r disgyblion weld enghreifftiau o’i gwaith hi, ac iddi hi fynegi ei barn ar waith Celf y disgyblion. Diolch Lizzie.

### Eisteddfod

Cawsom Eisteddfod yn yr ysgol eleni am y tro cyntaf ers sawl blwyddyn. Bu’r disgyblion yn brysur yn dysgu penillion a chaneuon er mwyn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Diolch i Mrs Gweneira Williams a Mrs Joyce Bowen am gytuno i ddod i feirniadu. Llongyfarchiadau i’r holl ddisgyblion am gystadlu mor frwd. Llongfarchiadau arbennig i Laura Jones-Williams am gipio gwobr y gadair. Da iawn ti.

### Gwisg Draddodiadol

Gan fod Dydd Gŵyl Ddewi eleni wedi disgyn yn ystod gwyliau hanner tymor, cafodd y disgyblion gyfle i wisgo eu gwisgoedd Cymreig ar gyfer ein Heisteddfod ysgol ar Fawrth y 7fed.

### Cogydd y flwyddyn

Llongyfarchiadau i Cathy Jones, ein cogyddes ysgol am ennill gwobr, Cogyddes y Flwyddyn. Mae Cathy yn gweithio yn galed yn yr ysgol. Dim yn unig coginio ond hefyd yn cynorthwyo’r disgyblion gyda darllen a helpu datblygu gardd yr ysgol bob blwyddyn. Diolch Cathy a llongyfarchiadau.

### Sesiynau Rygbi

Diolch i Llŷr, swyddog datblygu Undeb Rygbi Cymru am ddod i’r ysgol yn ddiweddar i gynnal sesiynau rygbi efo dosbarth 2. Gwnaeth pawb fwynhau’r sesiynau.

### Cestyll a Dreigiau

Buodd dosbarth 1 yn astudio thema Cestyll a Dreigiau. Buodd y disgyblion am helfa Dreigiau o gwmpas maes yr Ysgol yn chwilio am gliwiau ac olion dreigiau.



Dosbarth 1 wedi eu helfa dreigiau





Eisteddfod Ysgol



Lizzie Spikes yn ymweld â›r Ysgol.

# Ysgol Rhydypennau

## Eisteddfod Ysgol

Cynhaliwyd Eisteddfod yr Ysgol eleni ar y 5ed o Fawrth. Yn dilyn wythnosau o ymarfer a chwblhau gwaith penodol ar gyfer cystadlaethau dosbarth, daeth yr amser i feirniadu ymdrechion y plant. Roedd hi'n ofynnol i bob unigolyn adrodd neu ganu neu chwarae darn offerynnol. Yn ychwanegol i hyn bu'r beirniad yn dewis y goreuon o'r cystadlaethau dosbarth. Roedd pob tasg yn y gystadleuaeth yn ymwneud â Chymru. Ac ar gyfer y prif gystadleuaeth sef ennill 'Y Gadair', bu blwyddyn 5 a 6 yn cyfansoddi cerddi ar y thema'Y Gwanwyn'. Roedd ansawdd y cerddi yn arbennig o dda eleni eto, ond, ar ganiad y corn, Rhys Tanat o flwyddyn 6 a gododd o ganol y gynulleidfa i gipio'r Gadair. Llongyfarchiadau mawr i Rhys. Dyma gerdd Rhys:-

**'Y Gwanwyn'**

A weli di'r ŵyn bach yn prancio?
'Rôl Gaeaf mor galed a chas.
A weli di'r blodau'n blaguro?
Rhai euraidd a phiws a rhai glas.

A weli di goed noeth yn edrych
fel hên wraig mewn coban fawr wen?
Ond pan ddiflanna yr eira,
Gwelir mop o wallt ar ei phen!

A weli di'r cenin pedr fel mantell
yn ymestyn dros dirwedd mor hardd?
A glywi di gân y gwcw
tra'n eistedd yng nghrombil yr ardd?

A glywi di fwrlwm Eisteddfod?
Lle y dathlwn ein cymreictod ni.
Canu, dawnsio, llefaru ac actio
A barddoni gan drio odli!

A ddathlu di'r Pasg, a chofio am Ef;
Yr Iesu, ag aberthodd ei hun.
Fe lowciwn ni wyau heb holi pam,
Atgyfodiad yr arbennig un!

A deimli di'r awel fwyn yn sïo?
A weli di'r blodau'n blaguro?
Ŵyn bach yn prancio a'r dail y coed?
Y Gwanwyn prydferthaf erioed!

**Rhys Tanat**

Ac ar ôl cystadlu'n frwd drwy'r dydd, roedd pwyntiau'r tri thŷ yn agos iawn; ond Ystwyth a gariodd y dydd yn y pen draw;



Capteniaid Ystwyth - Eleri Roberts a Rhys Tanat

Eleri ddaeth yn ail a Rheidol yn drydydd. Da iawn i bawb am ymdrechu mor galed i sicrhau Eisteddfod lwyddiannus iawn eleni eto. Hoffai'r ysgol ddiolch i'r beirniaid profiadol am eu doethineb, sef Mrs Fal Jenkins a Mrs Teresa Davies.

## Twmpath


Ar y 6ed o Fawrth, trefnwyd einTwmpath blynyddol yn Neuadd yr ysgol i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi. Cafwyd gwledd o ddawnsio gwerin, gwobrau, gwisg ffansi, raffl a digon o fwyd a diod. Diolch i Erwyd Howells, Bryan a Ceinwen Jones ac hefyd i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol am drefnu noson wych a chodi swm da o arian tuag at goffre'r ysgol.



Dylan Herron - enillydd y wisg orau i fechgyn

## Clwb Cant

Yn ystod y Twmpath cyhoeddwyd enillwyr fis Mawrth. Dyma'r canlyniad
1af - £25-Elina Davies, Bronallt, Llandre.
2il-£15-Gwendoline Pugh, 19 Tregerddan.
3ydd-£10-Neve Ella Jones, Sea Breeze, Y Borth.



Erwyd a Brian yn ysu am ddechrau'r Twmpath



Hwyl Y Twmpath

Am fwy o wybodaeth cliciwch ar www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk

# Tasg y Tincer



Elen Haf Bailey

Gobeithio i chi fwynhau dathlu Gŵyl Ddewi. Gwelais nifer ohonoch yn y parêd yn Aberystwyth – diwrnod i'r brenin, yn doedd?

Dyma pwy fu'n lliwio llun y bachgen yn coginio crempog. Gobeithio eich bod wedi bwyta llond eich boliau! Nel Davies, Caernarfon; Elen Haf Bailey, Y Borth; Glain Erin Jones, Tal-y-bont; Gwenan Leggett, Dolau; Leah Lockyer, Penrhyn-coch; Anya Evans, Capel Bangor. Roedd yn hyfryd cael sawl enw newydd y tro hwn. Daliwch ati! Dy enw di, **Elen**, ddaeth o'r het y tro hwn. Llongyfarchiadau mawr!

Nid Dewi ydi'r unig sant sydd â gŵyl arbennig ym mis Mawrth. Ydech chi'n gwybod pa wlad sydd â gŵyl ei nawddsant ar 17 Mawrth? Dyna chi – Iwerddon. Ac enw'r sant? Sant Padrig. Yn ôl y sôn, defnyddiodd Padrig feillionen, (*shamrock*) i esbonio i bobl ei wlad am Dduw, ac rydym yn cysylltu'r planhigyn hwnnw ag Iwerddon hyd heddiw. Mae gan y feillionen dair deilen fach; rwy'n siŵr eich bod wedi gweld y planhigyn yn tyfu yn ardal *Y Tincer*! Rwy'n siŵr hefyd eich bod wedi sylwi mai dillad lliw gwyrdd y mae pobl o Iwerddon yn eu gwisgo mewn gêmau rygbi ac ati, sef lliw y feillionen. Mae rhai chwedlau'n dweud bod Padrig wedi ei eni yn ardal Port Talbot, ac mae Maewyn Succat oedd ei enw gwreiddiol. Bu farw Padrig ar ddiwedd y bumed ganrif. Edrychwch am fwy o ffeithiau amdano ar y we, neu holwch yn eich llyfrgell leol.

Y mis hwn, gan fod y tywydd yn gwella a'r awr ar fin troi, beth am liwio llun y plant yn mwynhau picnic yn y parc? Ydech chi'n medru gweld y dylluan? Anfonwch eich gwaith i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Ebrill 1af.... a ta tan toc!



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn | Oed


M THOMAS
Plymwr Lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio
ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
07968 728470
01970 820375

JONATHAN JAMES LEWIS
Saer Coed
Adeiladydd
01970 880652
07773442260
Bronllys
Capel Bangor
Aberystwyth

GOLCHDY LLANBADARN
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON
FFÔN: 01970 612 459
JEAN JAMES



ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 367 | MAWRTH 2014